

ECO'R WYDDFA

Rhif 134

MAWRTH 1988


Pris 20c



Diwrnod y "Trwynau Coch" yn Ysgol Brynrefail.

SIOM A LLWYDDIANT

Profodd nifer o ieuenctid y fro y chwerw a'r melys ym myd y bandiau pres yn ystod y mis diwethaf. Ar ôl ymarfer caled ers nifer o wythnosau ar gyfer ymddangos ar raglen deledu Arolwg; cawsant eu gwahardd gan Undeb y Cerddorion. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, yn dilyn mwy o ymarfer, daeth llwyddiant i ran rhai ohonynt yn sgil eu perfformiadau yng nghystadleuthau Unawdau, Deuawdau a Phedwarawdau Bandiau Pres Gogledd Cymru. Mae'r ddwy stori llawn yn dilyn.



Y CHWERW ... A'R MELYS

Mae traddodiad o fandiau pres ym mro'r Eco yn ymestyn yn ôl am 150 o flynyddoedd a mwy. Oherwydd hyn, penderfynwyd rhoi sylw i hanes y traddodiad hwn ar gyfer y rhaglen Arolwg i'w theledu ar S4C. Y bwriad oedd cael chwech o ddisgyblion Ysgol Brynrefail (aelodau o fandiau pres Deiniolen a Llanrug) i gymryd rhan yn y rhaglen i ddangos fod y traddodiad hwn yn parhau gyda bandiau ieuenctid yr ardal.

Ond cyn recordio'r rhaglen yn y stiwdio yn yr Wyddgrug, cafwyd gair gan swyddog cytundebau HTV yn dweud na fyddai'r chwech yn cael ymddangos oherwydd nad oeddynt yn aelodau o Undeb y Cerddorion. Roedd yr athro a fu'n gyfrifol am hyfforddi'r disgyblion - Mr Dennis Williams - yn flin iawn oherwydd agwedd "fabiaidd" yr Undeb.

Yn naturiol, roedd y disgyblion yn hynod o siomedig, ac er i'r ddau hynaf gael cynnig ymuno â'r Undeb (ar gost o £26!), cafwyd ar ddeall y gallai hynny achosi trafferthion

iddynt oherwydd eu bod eisoes yn aelodau o fandiau pres oedd yn aelodau o'r Gymdeithas Bandiau Pres. Diwedd y gân felly oedd, dim caân!

A'r hyn oedd yn rhwbio halen i'r briw oedd y ffaith i'r chwech disgybl deithio i Gaerdydd wythnos yn ddiweddarach i gymryd rhan mewn noson 'Proms' yr Ysgolion - a gai ei recordio gan gwmni HTV. Am mai perfformiad cyhoeddus oedd hwnnw, ac nid trefniant arbennig mewn stiwdio, doedd Undeb y Cerddorion ddim yn gwrthwynebu. Rhyfedd o fyd.



Cystadleuwyr ifanc Deiniolen.

Mewn marathon o chwythu a barhaodd o naw y bore hyd ddeg y nos, daeth llwyddiant haeddiannol i ran nifer o unigolion sy'n aelodau o fandiau Deiniolen a Llanrug. Roedd y gystadleuaeth flynyddol a gynhaliwyd ym Mangor ddydd Sadwrn diwethaf wedi ei threfnu gan Gymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru. Oherwydd nifer y cystadleuwyr roedd angen defnyddio dwy neuadd drwy'r dydd, gyda dros 150 o unawdwyr yn cystadlu.

Daeth llwyddiant ysgubol i Fand Deiniolen, gyda gwobrau ym mhob adran bron.

Cipiwyd pump gwobr gyntaf a dwy ail wobwr: Canlyniadau fel a ganlyn: Unawd 10-12 oed: 1. Eilir Williams; 2. Martin Ll. Williams, 4. Gavin Saynor, 5. Euros Williams; Unawd 12-14: 5 Sion Wyn Hughes; Unawd 14-16: 2. Dylan W Williams; 4. Iwan Williams.

Air Varie Dan 18 1. Iwan Williams; Deuawd 14-18: 1. Dylan Williams a Iwan Williams. Pedwarawd dan 14: 1. Deiniolen A. Deuawd dros 18: 1. Eifion Hughes a Colin Williams.

Eleni am y tro cyntaf cyflwynwyd Tarian i'r Seindorf gyda mwyafrif o farciau, a daeth Seindorf Deiniolen yn ail gyda 19 o farciau un pwynt y tu ôl i Fand Biwmares. Llongyfarchiadau i'r enillwyr ac hefyd i bawb arall a fu'n cystadlu.

Ni fu aelodau Band Llanrug mor llwyddiannus â'r llynedd, ond er hynny, llwyddwyd i ennill nifer o wobrau, gyda Gwryfai Williams yn dod â gwobr gyntaf gyda'r Aire Varie dros ddeunaw oed. Enillwyr eraill oedd Luned Jones (5ed ar yr unawd dan 10 oed); Kevin Tame (3ydd ar yr unawd o 14-16); David

Jacobs (2il ar yr unawd 16-18) a Kevin Tame (2il ar yr Aire Varie dan 18 oed).



Maer Arfon, y Cynghorydd Iwan Ll. Jones yn cyflwyno'r darian fuddugol i Eilir Williams.

Ymddiheurwn am fethu cael lluniat o'r chwech oedd i fod i ymddangos ar raglen Arolwg.



Pedwarawd Deiniolen.



Dylan Williams ac Iwan Williams. Deuawd buddugol.

ECO'R WYDDFA

RHIF 134
MAWRTH

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: Jonn
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithnog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.
(871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU Mawrth 31ain
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
Mawrth 22ain
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

"ADFER" YN CANMOL ARWEINWYR CYFRIFOL

Annwyl Olygydd,

Buom yn dystion i ddatblygiadau arwyddocaol iawn yn ddiweddar. Wele'r Swyddfa Gymreig yn gwrthod apêl am ganiatâd cynllunio ar gyfer "pentref gwyliau" yn Nhŷ Croes, ac yn rhestru Buddiannau'r Iaith Gymraeg ymhlith y rhesymau dros y penderfyniad. Nid mai tynged yr iaith oedd yr unig ystyriaeth; buasai gwrthod apêl ar ei sail hi'n unig yn nodweddu llywodraeth cenedl rydd, ond yn rhy chwyldroadol o lawer i lywodraeth Lloegr yng Nghymru fedru ystyried gwneud dim o'r fath ar hyn o bryd.

Eithr cyfaddefwyd yn y modd mywaf cyhoeddus bod datblygiadau twristaidd o'r fath yn elyniaethus i barhad Cymreictod, a bod lle o'r herwydd i awdurdodau cynllunio wrthod caniatâd iddynt. Yr oedd yn swadan gyhoeddus hefyd i'r Bwrdd Croeso; yr hwn oedd, yng nghanol ei fynych honiadau fod twristaeth yn llesol i Gymreictod, wedi cefnogi'r apêl. Fel cenedl yr ydym yn ddyleus i wŷr dysgedig fel yr Athro Harold Carter am ddangos inni'r perygl yn y lle cyntaf, ac am ychwanegu'n gyhoeddus ar y gwrthwynebiadau i'r apêl. Dyledus ydym hefyd i aelodau Cyngor Ynys Môn am eu penderfyniad cyfrifol i weithredu'n unol â'u dyletswydd trwy'u gwrthwynebiad i'r cais gwreiddiol ac i'r apêl canlyniadol. Onibai iddynt wneud safiad, y tebyg yw mai gwahanol iawn fuasai'r hanes heddiw.

Safiad hefyd sy'n nodweddu'r digwyddiadau yn Arfon, lle mae'r cyngor dosbarth wedi penderfynu gwrthod caniatâd cynllunio i ddatblygiadau twristaidd mawrion yn Llanrug a'r Felinheli. A phaham?

Oherwydd fod trigolion y ddau bentref wedi adnabod y perygl, ac wedi codi fel dwy gymuned gyfan y tu ôl i'w harweinwyr i wrthwynebu'n hyglyw unrhyw fwriad i'w dinistrio. Lle buasai gwrthwynebwyr unigol wedi methu, mae gwrthwynebiad cymundeol cadarn a gwybodus ei harweiniad yn ennill y dydd. Trech gwlad nag arglwydd.

Dyna neges amserol o Fôn ac Arfon i'r Fro Gymraeg gyfan. Nid oes yma unrhyw brinder blingwyr hunangar, tra pharod i rwyfo'n friwig gwlad a phobl yfory nesaf er mwyn crafangu'r ddimai olaf i'w gafael. Maent am geisio gwneud hynny, ac fe gânt arianwyr a gwleidyddion a swyddogion i'w cynorthwyo. Ond cymaint llai sicir yn awr yw eu gobeithion, cymaint tebycach i we pry cop yw eu celwyddau a'u bygythion, yn awr y mae'r gymuned Gymraeg wedi dangos bod iddi ymennydd, a chyhyrau, ac uwchlaw oll yr ewyllys i barhau.

Howard Huws,
Cadeirydd Mudiad Adfer,
26 Pen y Ffridd,
Penrhosgarnedd.

GRŴP CYFRYNGAU ABERYSTWYTH

Sefydlwyd y Grŵp ym 1984 ac yr ydym yn gweithredu o weithdy ffilm a fideo yng nghanol tref Aberystwyth. Mae'r Grŵp yn awyddus i roi cyfle i bobl weld a chlywed mwy o waith ffilm, fideo a ffotograffiaeth, argraffu a sain ac yr ydym yn gwneud hynny drwy:

a) cyfres o weithgareddau misol: Unwaith bob mis y mae'r Grŵp yn trefnu un ai seminar, gweithdy ymarferol, trafodaeth, dangos ffilmiau neu rhyw fath o ddigwyddiad yn Aberystwyth sydd yn galluogi'r cyhoedd i ddysgu mwy am y cyfryngau yn gyffredinol.

b) cyrsiau a gweithdai: Yr ydym yn darparu dosbarthiadau nos neu gysiau hyfforddi mewn ffilm fideo, ffotograffiaeth a sain er mwyn i bobl gael y cyfle i wneud darn o waith ar ei liwt ei hunain.

c) Ysgolion: Yr ydym yn cydweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cyflwyno'r cyfryngau i'r disgyblion ac iddynt hwy gael y profiad ymarferol o weithio gyda chamerau ac offer sain syml.

ch) Teithio: Y mae'r Grŵp eisoes wedi ymweld â rhai ardaloedd yn lleol i arddangos gwaith yr aelodau, hoffem ehangu'r gwaith yma gan fynd i fwy o lefydd ond hefyd i gyflwyno gwaith sy'n cael ei wneud mewn llefydd eraill.

d) Gweithdai: Y mae gan y Grŵp offer syml i gynhyrchu ffilmiau S8 a fideo VHS. Nid gwneud

rhaglenni i bobl yw pwrpas yr offer ond yn hytrach rhoi'r cyfle i unioglion ddod i fewn a gwneud darn o waith eu hunain.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn yr hyn yr ydym yn ei wneud fe fyddwn yn falch iawn o glywed gennych. Y mae tair ffordd o ymaelodi â'r Grŵp — sy'n dibynnu ar eich lleoliad neu'ch diddordeb:

Cyfeillion y Grŵp — Ymaelodwch fel hyn, ac fe fyddwch yn derbyn gwybodaeth reolaidd am ein digwyddiadau a'n gweithgareddau. Croesawn aelodaeth o bob cwr o Gymru.

Aelodau Grŵp Cyfryngau Aberystwyth — i gael hawl pleidleisio mewn cyfarfodydd a chyfle i leisio barn ynglŷn â'r hyn y mae'r Grŵp yn ei wneud.

Aelodau'r Gweithdy Ffilm a Fideo — ar ôl bod yn aelod o'r Grŵp am gyfnod, ac ar ôl dilyn cwrs hyfforddi y Grŵp bydd modd dod yn aelod o'r Gweithdy a gallu defnyddio'r offer ac ati.

Croesawn unrhyw ymholiadau a cheisiadau am ymaelodi.

Bydd ein digwyddiadau am y Gwanwyn yn canolbwyntio ar Deledu a'i effaith ar gymdeithas. Byddwn yn dagnos ffilmiau gan wneuthurwyr ffilm lleol a gwaith o bellafoedd yr Alban ac yn trafod astudio'r cyfryngau yn ein hysgolion uwchradd. Gobeithiwn fod o ddiddordeb penodol i athrawon a disgyblion y cwrs astudiaeth o'r cyfryngau.

Yn ystod yr haf fe fyddwn yn dangos ffilmiau o'r Affric, ac

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CASNEWYDD 1988 GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

Yng Nghasnewydd mae'r gwobrwyon yng nghystadlaethau yr adran Wyddoniaeth a Thechnoleg yn fwy nag erioed o'r blaen a chystadlaethau yn ymestyn o rai yn ymwneud â chyfrifiaduron i'r hen ffefrynnau fel erthyglau i'r cylchgronau gwyddonol.

Mae Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi bod yn rhan o'r Eisteddfod Genedlaethol ers tua 10 mlynedd bellach. Yng Nghaerdydd ym 1978 y cafwyd papbell Wyddoniaeth ar faes yr Eisteddfod am y tro cyntaf. Pabell fechan oedd hon, wedi cael ei gosod a'i chefnogi gan bwyllgor yr Eisteddfod ei hun.

Yn y blynyddoedd a ganlyn, cynyddodd y pabell a chynyddodd y cyfraniadau tuag at y maes hwn hefyd. Erbyn hyn mae'r pabell yn un sylweddol, yn cael ei noddi yn gyfangwbl gan Telecom Prydeinig ac yn cael lle blaenllaw ar faes yr Eisteddfod.

Wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â chanolbarth diwydiannol y De, rhesymol yw disgwyl i ragor o sylw gael ei roi i'r tŵf yn yr adran hon o fewn yr Eisteddfod.

Yn y pabell ceir arddangosiadau i ddenu'r ymwelwyr a chyfle i weld gwaith mudiadau ac ysgolion sy'n ymchwilio i wahanol bynciau diddorol ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg. Ceir yma hefyd ddarlithfa fechan lle cynhelir darlithoedd ysgafn bob dydd ag eithrio diwrnod y ddarlith Wyddonol a draddodir yn y Babel Llen. Yma hefyd y cynhelir y gystadleuaeth boblogaidd "Cael Wil i'w Wely" bob dydd.

Mae manylion am y cystadlaethau yn ogystal â manylion pellach am y gystadleuaeth arbennig ar gael o'r cyfeiriad isod:

Mr Griff Williams, Swyddfa'r Eisteddfod, Rhodfa'r Brenin, Casnewydd, Gwent. NP9 1EX

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

yna'n yr hydref yn canolbwyntio ar waith gan fenywod. Mae yna lawer yn digwydd — dewch i fod yn rhan o'r dangos a'r trafod ac ati.

Am fwy o wybodaeth:
Catrin M S Davies, Grŵp Cyfryngau Aberystwyth, Blwch Post 54, Aberystwyth, Dyfed. Ffôn: 0970 4001

Oes "ATAL DWEUD" ar eich plentyn?

Pamffledyn newydd, yn yr iaith Gymraeg, ar gyfer rhieni sy'n gofidio am leferydd eu plant. Mae nifer o blant yn mynd trwy gyfnod o 'atal dweud' fel rhan naturiol o'u datblygiad, ond mae rhai plant yn datblygu atal dweud o ddiari pan maen nhw'n ifanc. Bydd y pamffledyn hwn yn gymorth i rieni sy'n wynebu'r problem o blentyn sydd wedi dechrau datblygu atal dweud. Cynigir gwybodaeth am atal dweud sy'n glir ac yn hawdd i'w ddeall. Mae'r pamffledyn hefyd yn cynnig syniadau ar sut gall rhieni fod o gymorth i'w plentyn — beth i'w wneud yn ogystal â beth na ddylid ei wneud, a hefyd awgrymiadau ynglŷn â sut i greu awyrgylch fydd yn llesol i'r plentyn.

Lluniwyd y pamffledyn gan Bwyllgor Ymchwil Therapyddion Lleferydd i Ddwyieithrwydd, dan nawdd Awdurdod Iechyd Sir Benfro. Sefydlwyd er lles plant ac oedolion dwyieithog Cymru. Dymuna'r Pwyllgor gynnig diolch i bawb fu'n gysylltiedig â pharatoi'r pamffledyn, gan gynnwys Mr Morris Rhys a Dr Urien Wiliam.

Mae'r pamffledyn ar gael oddi wrth:

P.Y. TH. i Dd.
Adran Therapi Lleferydd
Ysbyty Llwyn Helyg
Hwlfordd
Sir Benfro
Dyfed.


Os ydych am fwy o wybodaeth,
cysylltwch â:

Mari Williams
Adran Therapi Lleferydd
Ysbyty'r Bwthyn
Lôn Ddewi
Caernarfon
Gwynedd

Mae'r gôst fel a ganlyn:

10 £1.50; 50 £3.00 100 £4.50 500 £20.00 (Cludiant yn rhad ac am ddim)

BARBECIW I DDATHLU DIWEDD Y DOGNI



Daeth y llun yma i'r Eco trwy law Mrs Vera Hughes, Snowdon Valley (Siop Chips), Stryd Fawr, Llanberis. A oes rhai o'n darllenwyr yn adnabod rhai yn y llun? Y gŵr a'r cap yn sefyll yn y cefn oedd y diweddar Mr Douglas Ellis, Llainwen. Mae Mrs Ellis a'r ferch yn dal i fyw yn Llainwen a'r mab yn Nol Elidir. Anfonwch atom os gwyddoch pwy yw'r lleill.

DIGRIFWYR, DALIER SYLW

Mae Cwmni Recordiau Fflach o Aberteifi, yn bwriadu cynnal noson yn y Gogledd efallai yng Nghaernarfon, o hiwmor cefn gwlad. Bydd y noson yn cael ei recordio gan y cwmni i'w rhyddhau ar gaset. Felly mae angen digrifwyr arnom i gynnal y noswaith â hiwmor o bob math (o fewn rheswm!)

Os oes diddordeb gennych yna ffoniwch neu ysgrifennwch at:
Richard Jones, Dolwen, Blaenffos, Boncath, Dyfed. SA37 OHY.
Ffôn (023974) 508

**Gwasanaeth NEWYDD
ar garreg eich drws**

**SEGONTIUM
CAR · VAN HIRE**

Cerbydau Pickup, Luton, Cargo a Bysus Mini

Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir

**UNED 5, STAD CIBYN
CAERNARFON Ffôn: 2013**

CŴN O FRÎD



Dyn prysur iawn yw Glyn Owen, Glan Gors, Ceunant. Ychydig fisoedd yn ôl roedd stori amdano yn yr Eco fel y dyn ag amser ar ei ddwylo — cyfeiriad ar ei ddileit mewn clociau. Wel, dyma Glyn eto a llond ei freichiau o'i "hobi arall", chwedl yntau, sef magu cŵn defaid.

Mae'r tri ci bach, chwech wythnos oed, y mae Glyn mor falch o'i dangos, yn rhai go arbennig. Pan anwyd 6 ohonynt i gyd i Jess, ast Glan Gors ar Ragfyr 15, daethant i linach enwog. Merch yw Jess i Craig Elwyn — ci sydd wedi ennill gwobrau rhyng-genedlaethol mewn treialon cŵn defaid.

Mae ynddynt waed arbennig hefyd o ochr eu tad — sef Moss sy'n fab i Roy Templeton o swydd Ayr

yn yr Alban. Mae'r brid yma'n adnabyddus i bawb sy'n ymddiddori mewn treialon cŵn defaid. Mae disgynyddion Roy yn enwog mor bell â Thecsas a Chalifornia yn yr Unol Daleithiau.

Gwerthwyd tri o'r cŵn bach ddiwrnod cyn i'r llun gael ei dynnu. Dridiau ar ôl i'r llun gael ei dynnu fe werthwyd un arall i fridiwr lleol "eithaf enwog yn y maes," meddai Glyn.

YMDDIHEURIAD

Ymddiheurwn i Tom Jones am gyhoeddi llun ohono yn y rhifyn diwethaf heb ganiatâd. Llun ohono ydyw a dynnwyd yn ystod achlysur

yng Nghastell Cidwm, ac a ddefnyddiwyd yn yr Eco rai blynyddoedd yn ôl.

Golygyddion

Gwasanaeth Ariannol

24 Stryd Fawr, Yr Wyddgrug,

Clwyd.CH7 1AZ. Ffôn (0352) 59172

FAX:(0352) 50186

TARIAN

**NEWYDD AGOR YNG
NGHAERNARFON**

Tŷ Glyndŵr, 1 Stryd Y Castell,
Ffôn: Caernarfon 77787/8

*EIN SWYDDFA NEWYDD
DEWCH AM GYNGOR (A PHANED)
AR LU O FATERION ARIANNOL -
PERSONOL A BUSNES.*

- | | |
|----------------------------------|----------------|
| * Morgais | * Pensiwn |
| * Cyfrifon | * Grantiau |
| * Buddsoddiadau | * Benthyciadau |
| * Yswiriant bywyd a chyffredinol | |

(Mae'r arolwg ariannol cyntaf a'r adroddiad yn rhad ac am ddim)

Cysylltwch â :CYNAN JONES, B.S.c.

Partneriaid: Dennis Jones, B.A. F.C.C.A.

Ron Owen, F.M.C.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

PLAID CYMRU: Ymunodd nifer o aelodau cangen Llanrug â changhennau Waunfawr a'r Bontnewydd yng ngwesty Bryn Eirian, Waunfawr yn ystod mis Chwefror. 'Roedd John Huws, Waunfawr wedi trefnu cwis ar ein cyfer a bu cystadlu dyfal. Yr enillwyr oedd Gill Wyn a Joy Glyn o gangen Waunfawr, ac enillydd y raffl oedd Rhyllis Ellis, cangen Llanrug. Ar Fawrth 2, cynhelir 'Noson i'r teulu' i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Nglangwna, Caeathro. Bydd Dafydd Iwan a'r grŵp Y Cynghorwyr yno i'n diddanu. Mae'r tocynnau £2, i'w cael gan Gwyndaf Jones (Caernarfon 4669) neu Goronwy Hughes (Caernarfon 4839).

Oherwydd gwaeledd un o aelodau'r cwmni, mae'n orfodol gohirio drama cwmni Llwyndyrus o Chwefror 27 i fis Mawrth. Bydd manylion ar y poster. Os ydych wedi prynu tocynnau eisoes, cewch eu defnyddio ar y dyddiad newydd.

CAPEL MAWR: Ysgol Sul: Aeth nifer dda o blant yr Ysgol Sul i fwrw'r Sul yng Nghanolfan Rhyd Ddu yn ystod mis Chwefror. Trefnwyd llawer o weithgareddau ar eu cyfer gan Delyth Oswy, ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Ar ddechrau mis Mawrth bydd Merched eraill o'r Ysgol Sul yn mynd i fwrw'r Sul i ganolfan Nefyn, a hyderwn y bydd yr ymweliad yma yr un mor llwyddiannus.

Cymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr, nos lau 26ain Ionawr. Llywyddwyd gan Miss Meirwen Roberts, Ganllwyd. Cafwyd noson ddiddorol dros ben yng nghwmni Mr Emrys Evans, Llanrug a ddangosodd sleidiau o bentrefi yn swydd Darbi lle ceir yr arferiad o addurno ffynhonnau. Thema'r addurno oedd yr Hen Destament a'r Newydd. Roedd Mrs Evans yn cynorthwyo ei gŵr. Diolchwyd i Mr a Mrs Evans gan Mrs W. O. Roberts, a hi hefyd ddiolchodd i Mrs J Maxwell a Mrs E. Williams am ddarparu paned. Cafwyd gair pellach o werthfawrogiad gan y Parch W.O. Roberts. Llywyddwyd cyfarfod 14eg o Ionawr gan Mrs Beryl Thomas.

MERCHED Y WAWR: Y Prifardd leuan Wyn oedd y gŵr gwadd yng nglyfardd mis Chwefror o gangen Merched y Wawr Llanrug. Trueni fod y tywydd garw wedi cadw cymaint adref ond fe gafodd y rhai a fentrodd allan faint a gwefr yn gwrando arno. Cyflwynodd inni gefndir yr awdl 'Llanw a Thrai' a enillodd iddo y gadair genedlaethol ym Mhorthmadog y llynedd.

Wrth adrodd ei awdl rhoddodd inni'r hanesion tu ôl i'r darluniau a'i symbylodd. Yn ei ffordd ddi-rodres, diffuant annwyl ei hun rhannodd â ni brofiadau hynod bersonol ei blentyndod. Wrth ymgymeryd â'r dasg anodd o wagio hen gartref ei nain a'i daid daeth ar draws y lluniau mewn drôr. Roedd rhain yn eu tro yn deffro atgofion byw iawn ynddo. Wrth rannu'r profiadau personol hyn â ni sylweddolodd llawer ohonom mor gyffredin oeddynt i ninnau oedd yn gwrando arno. Diolch iddo am noson gofiadwy iawn, ond yn fwy na dim, am gyflwyno i'w genedl gampwaith llenyddol mor fendigedig.

Diolchwyd iddo gan Miss Phyllis Ellis a pharatowyd paned a bisgedi gan Enid, Gwenda, Olwen a Gillian. Diolchodd Nan Humphreys iddynt. Enillwyd y raffl gan Ann Lloyd Griffith.

Byddwn yn "Rhannu a Blasu" yn y cyfarfod nesaf ar Fawrth 8fed yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch. Felly, peidiwch a bwyta gormod cyn dod!

CLWB PELDROED: Mae Tombola wedi ei drefnu yn yr Ysgol Gynradd ar nos lau 17eg o Fawrth am 7.00 o'r gloch, bydd yn siŵr o fod yn noson o hwyl - mae Pys ar y peli!

CLWB PELDROED LLANRUG UNEDIG RAFFL NADOLIG 1987:

1. 6590 Edryd, 15 Maes Padarn, Ll'beris - Teledu Iliw; 2. 591 Linda Jones, Pant Mwyn, Llanrug, - Radio; 3. 07235 Liz Thomas, Capel Curig - £20; 4. 1286 Joyce Jones, Barclays Bank, C'fon, - Wisgi; 5. 02304 Waverney, Room 2-187 Y.G. - Port; 6. 3633 Zoe, Leicester Polytech - Sherri; 7. 3858 Dewi Jones, 7 Garth Rd., Mochdre, - Gwin; 8. 00757 Eirwen Williams, Llys Ifor, Llanrug, - Siocled; 9. 3576 Alwyn Jones, 5 Bethesda Bach - Gwin; 10. 3945, 2 Bryn Ffynnon, Prenteg - Gwin; 11. 3748 Jane Griffith 31 Glyndŵr Rd, Llysfaen - Gwin; 12. 1541 M Morgan, dan ofal Palace Vaults - Siocled; 13. 5534 J. Owen 21 Rhos Rug, Llanrug - Gwin; 14. 4082 Elfryn - Gwin; 15. 5548 Eurwyn Glass, Penisarwaun - Bisgedi.

CLWB 200: Ceris Jones, Glanfa, Llanrug £120; Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun £60, E. Jones, Llanrug £40; Margaret Parry, Bro Dawel, Llanrug £20; Brenda Parry, dan ofal Midland Banc, C'fon £10.

Clwb 100 Ionawr: Elwyn Jones, 36 Bro Rhyddallt, Llanrug £40; M. McDonald Mareth, Llanrug £20; Iona Williams, Crugan, Llanrug £10.

APEL YR URDD: Cynhaliwyd Noson Goffi yn ddiweddar yn yr Ysgol Gynradd a gwnaed elw o £224. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu



Dr Jim Davies, Cadeirydd Apêl y Sganiwr yng nghanol plant hynaf Ysgol Gynradd Llanrug. Roedd newydd dderbyn sic am £200 ganddynt - sef y swm a gasglwyd yn ystod gwasanaeth Nadolig yr Ysgol. Casglwyd rhan o'r cyfanswm gan rai o'r genethod hynaf a fu'n canu carolau o ddrws i ddrws. Dywedodd Dr Davies bod y nôd o filiwn o bunnau wedi ei gyrraedd a'i basio. Pan gesglir yr holl arian ynghyd bydd y swm yn agosach at £1,100,000. Bydd swyddfa'r apêl yn cau ymhen mis neu ddau.

cefnogaeth. Gwnaed elw o £37 mewn parti llestri yn nhŷ un o aelodau'r pwyllgor hefyd.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth y 16eg cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas, dan lywyddiaeth Mr Ifor Williams, Hafan Elan. Y Saradwr oed Mr Dafydd Whiteside Thomas, a thestyn ei sgwrs oedd "Noa".

Diolchwyd iddo gan y Parch. Erfyl Blainey.

Bydd yr aelodau yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis ar Fawrth 1af, gyda Mr Robert Williams, Llain Gwta, yn ŵr gwadd.

TEYRNGED I'R DIWEDDAR MR. D. GLYNNE OWEN:

Fel gweiniodg presennol Eglwys Pontrhythallt fe hoffwn i ddweud gair am y diweddar D. Glynne Owen.

Rwy'n credu mai'r tro cyntaf imi ei gyfarfod oedd tua chwe mlynedd yn ôl a hynny mewn cyfarfod o Henaduriaeth Trefaldwyn Isaf. Roeddwn yn digwydd bod ar y pryd yn aelod o'r un Henaduriaeth a'i fab Y Parch Tudor Owen, Birmingham. Y tro wedyn imi ei weld oedd yng nghyfarfod Sefydlu Y Parch Bryn Williams, un o blant Eglwys Pontrhythallt ac yna wrth gwrs pan ddeuthum yn Weinidog i ofalaeth Capel Mawr Llanrug bedair blynedd yn ôl. Yn ystod yr amser felly yr wyf wedi adnabod y diweddar Mr D Glynne Owen.

Fe'i cefais yn gyntaf yn ŵr crefyddol. Fel y gwyddys yr oedd ganddo gof anhygoel. Roedd yn cofio pob gweinidog a phregethwr a fu'n pregethu yng Nghapel Pontrhythallt. Roedd hefyd yn gwybod eu hynt a'u cysylltiadau i gyd. Roedd yn cofio eu pregethau ac yr oedd yn hoff iawn o

ddyfynnu ambell i bregethwr mewn seiat neu gyfarfod eglwysig. Roedd yn hynod o ffyddlon i gyfarfodydd yr Eglwys a'r ofalaeth yn ogystal a'r Cyfarfod Dosbarth a'r Henaduriaeth. Ef oedd Ysgrifennydd yr Eglwys ac Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau. Bu'n Llywydd y Cyfarfod Dosbarth a'r Henaduriaeth hefyd.


Roedd Glynne Owen wedi ei gynysgaeddu â dawn arwain, siarad a gweddio yn gyhoeddus a bu ei gyfraniad ef yn ddiwyd a gwerthfawr iawn yng ngwaith a thystiolaeth Eglwys Pontrhythallt.

Roedd yn ŵr hynaws. Yn wir yr oedd gan Glynne Owen y ddawn ddihafael honno o wneud ffrindiau a hefyd i ddenu pobl ato. Roedd yn hynod o boblogaidd yng nghylch Llanrug ac yn uchel iawn ei barch hefyd. Roedd plant yr Ysgol Sul ynghyd phlant yr ardal yn meddwl y byd ohono ac yr oedd ef yn garedig iawn wrthynt hwythau. Roedd hynawsedd Glynne Owen yn amlwg i bawb ac yn gyfrwng i ennill llawer yn gyfeillion mynwesol iddo ac i ahcos lesu Grist hefyd.

Roedd yn ŵr caredig, yn selog dros bob achos da. Roedd yn cyfrannau yn hael at waith yr eglwys yn ogystal a phob mudiad dyngarol arall. Roedd yn hynod o garedig wrth fy hogle i a phob tro y byddwn yn ymweld ag ef yr oedd yn siŵr o gofio am yr hogle ac anfon ei gofion at fy ngwraig. Yn wir fe ellid ymhelaethu ynglŷn â chymeriad a rhinweddau'r gŵr crefyddol, hynaws a charedig hwnnw. Roedd Glynne Owen yn ei gartref yn 'Llys Eryri' wedi ei amgylchynu â lluniau ei deulu sef Tudor a Dafydd ynghyd a'u plant Sian, Ann, Rhian a Rhys. Yr oedd hyn

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175

**Wavell
Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

yn dystiolaeth o'i barch a'i edmygedd ohonynt.

Fel gweinidog cefais y fraint o ymweld â Glynne Owen yn ystod ei ddyddie olaf yn Ysbyty Selly Oak, Birmingham. Roedd yntau mor falch o glywed fod yr Eglwys ym Mhonrhythallt yn anfon eu cofion ato ac yn gweddio drosto.

Ys dywed y Parchedig Idris Davies, cyn weinidog Ponrhythallt yn adroddiad yr Eglwys am y flwyddyn 1949. "Dewiswyd Mr D Glynne Owen i'r swydd o flaenor, llongyfarchwn ef ar y dewis a llawenychwn o'i weld wedi ymroddi o ddifri i'r gwaith. Duw a'i bendithio a hir oes i wasanaethu ei Deyrnas ef ar y ddaear."

Yn sicr y bydd colled aruthrol ar ei ôl yn Eglwys Ponrhythallt ond dymuniad olaf Glynne Owen pan oedd yn ys Ysbyty Selly Oak oedd i'r gwaith fynd rhagddo ym Mhonrhythallt am flynyddoedd eto i ddod.

Daeth tyrfa fawr ynghyd i gynhebrwng y diweddar Mr D Glynne Owen a gynhaliwyd yng Nghapel Ponrhythallt Ionawr 22. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Gweinidog y Parch John Morris yn cael ei gynorthwyo gan y Parch W.O. Roberts, H. Gwynfa Roberts a'r Parch H.W. Hughes., Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Nant Peris. John Morris

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss M Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (Llanberis 870030)

COFION: Anfonwn ein cofion ar Kelly L Roberts, Aelfryn. Cipiwyd hi i'r ysbyty yn sydyn yr wythnos dwythfa, a dymunwn adferiad iechyd buan iddi.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Miss Nance Williams a Mr Michael Williams, Cartref o golli chwaer a modryb Mrs Margaret Elizabeth Williams o Maes Gwyn, Llanddona a fu farw ar y 12fed o Chwefror. Ein cofion a'n cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Ein cofion a'n dymuniadau da hefyd i Mrs Katie Williams, Morawel. Nid yw Mrs Williams wedi bod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar. Boed iddi adferiad buan.

DIOLCHIAU: Dymuna Mr a Mrs John Humphreys, Caer Maen, Ceunant, Llanrug ddiolch yn gynnes i bawb am bod cymwynas a charedigrwyd a gawsant yn ystod yr hanner blwyddyn a aeth heibio.

Diolch yn arbennig i staff meddygol Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd am y gofal gafodd John Humphreys tra roedd yno, i'r meddyg teulu a'r nyrsus cymunedol, i staff ysbyty Eryri a'r dynion ambiwlans am eu gofal cyson yn awr. Gwerthfawrogi yn fawr bob haelioni a chymwynas gan gymdogion a chyfeillion. Diolch yn fawr i bawb.

BAND LLANRUG YNG NGHARNIFAL BETHEL



Band Llanrug yn gorymdeithio hyd ffordd Tre Gof.

Yn y cefn (drwm) Robert Griffith (Y Ring)

Rhes ôl: John Griffith Jones, Gorffwysfa; Owen John Jones, Bryngwyn; Robert Pritchard, Pen Llel.

Ail res: John Morris Jones; Robert J. Jones, Glasdy.

Rhes flaen: Robert John Jones, Idan House; Owen Evans, Postman, (arweinydd); John O. Jones, Cae Rhos.

Yn cerdded ar y blaen: Hugh Hughes (Pant) Bethel.

Roedd Band Llanrug efo rhyw ddynnaid o chwaraewyr wedi hel at ei gilydd i geisio ail-gychwyn ar ôl y Rhyfel.

Yr hanes gan Emrys Jones Caernarfon

(Llun trwy garedigrwyd J. Iorwerth Jones, 21 Y Glyn, Caernarfon.)

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

EGLWYS M.C. Nos Sul, Ionawr 24ain cynhaliwyd oedfa dan nawdd aelodau'r Eglwys ar y thema 'Halen y Ddaear', a 'Goleuni'r Byd'. Cymerwyd rhan gan Miss Blodwen E Owen, Mrs Gwyneth Evans, Mrs Eirianwen Evans, Mrs Jennie A Roberts Mrs Jennie Maxwell, Miss A.M. Williams, Mrs Pat Jones, Mrs Carol Houston, Nicola Houston, Mrs Ifanwy Jones, Einir, Catrin ac Owain Gwyn a Miss Lowri P. Roberts. Fore Sul, Ionawr 31ain, bedyddiwyd Meilir Siôn, mab bychan Mr a Mrs John Owen, gynt o Fryn Garth. Y rhieni Bedydd oedd Mr a Mrs David Thompson, Caer. Gweinyddwyd y sacrament gan y Gweinidog y Parch John Morris.

PENBLWYDD: Ddydd Sul, Chwefror 14eg, dathlodd Mrs Evelyn Williams, Llys Arfon ei phenblwydd yn 90 oed. Daeth nifer helaeth o'r teulu at ei gilydd i westy Gwêl y Llyn i ddathlu'r achlysur, ac ni ellid fod wedi dewis lleoliad rhagorach gan mai ychydig lathenni oddi yno y cychwyn llwybr i fyny tua'r Clegir, hen gartref y teulu.



"Roedd yn wefr cael aduniad o'r teulu ar achlysur mor arbennig mor agos i'r hen gartref" dyna eiriau Miss Annie May Williams, sydd ynghyd ag aelodau eraill o'r teulu yn gofalu'n dyner iawn am Mrs Williams. Estynnwn ein llongyfarchiadau i Mrs Williams, sydd yn nain i un ar bymtheg ac yn hen nain i ddau ar bymtheg, ar gyrraedd ohoni y garreg filltir hon.

Ei dymuniad yw cael diolch o galo i bawb am eu caredigrwyd a'u

DALIER SYLW

(Newid dyddiad)

Cwmni Drama Llwyndyrus

Gohiriwyd perfformiad o'r ddrama

'O Lofft i Lofft' o fis Chwefror i fis Mawrth

Bydd y manylion ar y posteri yn lleol

Gyda diolch i bawb o LANRUG am helpu i blygu'r rhifyn hwn o ECO'R WYDDFA

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

dymuniadau da ac am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ddydd ei phenblwydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun Chwefror 15ed, cyfarfu'r gangen yn y Festri. Roedd y noson dan ofal Mrs Jennie Angharad Roberts, Glandwr. Dangoswyd nifer helaeth o dryloywderau ganddi ynghyd â sylwebaeth bwrpasol yn darlunio manau arbennig yng ngwlad Israel yr ymwelodd â hwy ar ei phererinod yno'r llynedd. Diolchwyd yn gynnes iawn i Mrs Roberts gan Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc. Rhoddwyd lluniaueth y noson gan Mrs Rhian Jones, 3 Trem Eilian a Mrs Helen Jones, 5 Trem Eilian. Enillwyd gwobr y noson, rhoddedig gan Mrs Jennie Hughes gan Miss Lowri P Roberts, Godre'r Coed. Dethlir Gŵyl Ddewi y mis nesaf gyda chinio yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

CYFARFOD PWYSIG: Nos Lun, Mawrth 7fed am 7 o'r gloch yn y Festri, cynhelir cyfarfod arbennig dan nawdd Pwyllgor Pentref Brynrefail. Disgwylir yno, o Gyngor Arfon, Mr D.M. Hughes, y Swyddog Iechyd Rhanbarthol ynghyd â Mrs Eira Hughes, y Dirpwrwy Swyddog Cynllunio i drafod cynlluniau cadwraeth, ac hyrwyddo datblygiadau yn y pentref a'i gyffiniau. Taer erfynnir am gefnogaeth deilwng o'r pentrefwyr i'r cyfarfod hwn.



CWBLHAU CWRS: Ein llongyfarchiadau i Heather Jones, Gors, sydd newydd gwblhau ei chwrs fel Nyrs Gyffredinol Gofrestredig yn Ysbyty Gwynedd.

SELWYN MORRIS

Adeiladwr a Threfnydd Angladdau

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

Aled Jones

Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio

4 Bryn Eglwys Penisarwaun

Ffôn: Llanberis 871047

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6
Rhydfadog (Llanberis 871259)



Pwy, tybed, yw'r pethau bach del yma? Tynnwyd llun yr efeilliaid dros hanner canrif yn ôl pan oeddynt ond chwe mis oed. Clwi i chi; mae enw un ohonynt ar y dudalen yma.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN: Gwahoddid ceisiadau oddi wrth sefydliadau a mudaidau yn Neiniolen am gyfraniad o'r Gronfa Uchod. Bydd y pentrefwyr yn cofio i'r Gronfa gael ei sefydlu gan y Comisiwn Elusennau ar ddibenion elusennol, ac er budd cyffredinol trigolion Deiniolen. Dylid anfon y ceisiadau, ynghyd â chopi o'r Fantolen ddiweddaraf mewn amlen wedi'i marcio "Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen", i Ysgrifennydd y Gronfa, 4 Tai Cartadog, erbyn dim hwyrach na 31 Mawrth 1988.

CYNGOR ELGWYSI DEINIOLEN: Nos Lun, 8 Chwefror bu'r Parchg Erfyl Blainey yn agor trafodaeth yn Festri Ebenezer ar y testun Pechod ac Afiechyd. Yn ôl ei arfer, roedd agoriad Mr Blainey yn olau a gogleisiol. Cafwyd blas arbennig ar y trafod, a gorfu cau pen y mwdwl yn llawer rhy fuan gan fod yr awr wedi hedfan heibio mor gyflym. Yn dilyn y drafodaeth, bu'r Cyngor yn ystyried y trefniadau manwl ar gyfer yr oedfaon dan arweiniad y Parchg Trefor Lewis, ac mae'r Cyngor yn dra diolchgar iddo am ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Gweinyddir y Cymun Sanctaidd yn oedfa'r bore am ddeg, ac am ddau y prawn cyflwynir Pasiant y Plant, tra bydd y Gwasanaeth Arbennig i ddathlu'r cyhoeddi yn cychwyn am hanner awr wedi pump. Estynnir croeso cynnes i bawb i'r oedfaon.

Yn dilyn y ffrwydriad yn Enniskillen fis Tachwedd diwethaf roedd y Cyngor wedi anfon ei gydymdeimlad i'r trallodus yno, gan ddeisyf cymod buan yn y wlad. Yn y cyfarfod uchod darlawnwyd llythyr oddi wrth Eglwys Fethodistaidd Enniskillen yn gwerthfawrogi ein cydymdeimlad a'n gweddïau.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI: Cyfarfu Pwylgor Gwaith yr Eisteddfod nos Wener, 12 Chwefror i wrando adroddiadau Ysgrifenyddion Is-bwyllgorau'r Eisteddfod gogyfer â'r rhaglen am eleni. Bydd rhaglen Eisteddfod 1988 yn amrywiol a diddorol a dylid denu cystaldu brwd a safonol. Cynnigir Cadair Eisteddfod 1988 am "Gasgliad o waith creadigol sy'n cynnwys o leiaf dau gyfrwng gwahanol ar yr un testun." Mewn ymdrech i ddenu côr neu ddau yma i gystadlu o du allan i ddaglych yr Eisteddfod cynnigir gwobr o £75 i'r cof byddugol. Gobeithio yn wir, y gwelir côr neu ddau o'r ardal yn ymgiprys am y wobwr eleni!! Y beirniad am eleni fydd Mr Rhys Jones, Rhuthun (Cerdd); Mr Aled Lloyd Davies, Yr Wyddgrug (Adrodd a Llên); Mrs Judith Harding, Penisarwaun, Mrs Janice Land, Llanddeiniolen a Mr John E Williams Pentraeth Celf a Chrefft.

Diolchodd Mr Ernest Jones, y Cadeirydd i'r Is-bwyllgorau am eu gwaith da, a rhagwelodd y byddai rhaglenni Eisteddfod 1988 ar gael yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd tua diwedd Mai.

Y SEINDORF: Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am ddau fis:
Mis Ionawr: 1. Rhif 87. £20 Mr Elfed Jones, dan ofal Caradog. 2. Rhif 176 £15 Elaenor Morris, Ffordd Deiniol. 3. Rhif 104 £10 Mr Humphrey Hughes, Tai Gwyrfa.

Mis Chwefror 1. Rhif 120 £20 Karen Hurst, dan ofal Arfon House
2. Rhif 99 £15 John Roberts, Hafod Oleu. 3. Rhif 111 £10 Sara Woods, Fron Heulog, Dinorwig.

CAPEL DISGWYLFA: Ar Chwefror 4ydd cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Nisgwylfa, yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn canu gyda'i gilydd eu hoff emynau o'r atodiad.

Dewiswyd Is-lywydd newydd sef Mrs Eirlys Williams a Mrs Ruth Jones yn ysgrifenyddes. Diolchwn i Mrs Ann Rees Owen am ei gwaith fel llywydd am lawer o flynyddoedd. Mae wedi mynd i fyw i Fangor at ei merch. Diolchwn hefyd i Mrs Helen Jones am ei gwaith fel ysgrifennydd. Dymunwyd gwellhad buan iddi a gobeithiwn ei gweld gyda ni eto yn fuan. Cafwyd y te gan Mrs Miriam Lewis a Miss Elizabeth Griffiths. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 3ydd. Yn gwenud y te bydd Mrs Jean Goldsworthy a Mrs Eirlys Williams. Mae croeso cynnes i bawb o'r eglwysydd sydd a diddordeb.

MERCHED Y WAWR: Croesawyd ni yn y Cyfarfod Cyntaf o'r flwyddyn gan ein Llywydd Mrs Miriam Lewis.

YSGOL GANOL DEINIOLEN



Rhes flaen: Sion Roberts (Trysgol); Hughie Roberts, Arthur Owen, Dr. Dan Hughes, Robert John Parry, John Roberts, Leslie Moses, William Hughes (brawd Owie Parry), Eilir Williams.

Rhes ganol: Betty Lloyd; Nanw Jones (Celyn), Lizzie Fôn Hughes, Nellie Rhian Jones, Marian Wyn Williams, Iris Jones (Tai Caradog gynt), Olwen Parry, Meira Williams.

Rhes ôl: Timmy Edwards (Cerddor), Owie Parry, Goronwy Jones, John Owen Jones, Stanley Peris Jones. Derbyniwyd y llun gan Mr Leslie Moses (Erw Wen gynt), 28 Lôn y Bryn, Porthaethwy.

Darllenodd llythrau yn ymwennu â'r Mudiad a llythyr o Gartref Bontnewydd yn gwneud cais am rai i fabwysiadu plant am gyfnod byr. Mwynhawyd y noson ar ddechrau mis Chwefror yn Theatr Gwynedd yn gweled y Ddrama Plas Dafydd. Etholwyd Mrs Buddug Jones i gynrychioli'r Gangen ar bwyllgor Y Ganolfan. Ein gwraig wadd y trwo hwn oedd Miss Ceri Pierce. Ymwelydd lechyd Cylch Llanberis. Soniodd am y cyrsiau y bu'n rhaid iddi eu dilyn cyn cyrraedd y cymwysterau at ei gwaith. Wedyn cawsom sgwrs ar y peryglon o ysmegu a phethau eraill oedd yn amharu ar ein iechyd ac yn peri clefyd y galon. Gwerthfawrodd pawb ei sgwrs. Diolchwyd i Miss Pierce gan y

Llywydd a Mrs Iona Richards. Gwesteion y te oedd Mrs Beti Williams a Mrs Ceri Evans. Enillydd y wobwr oedd Mrs Megan Morris.

DIOLCH: Dymuna Glyn G Jones, 7 Pentre Helen ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd, cardiau a Rhoddion a dderbyniodd tra yn yr Ysbyty ac wedi dod adref. Diolch yn fawr.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
**GWASANAETH
FFON 24AWR
LLANBERIS 870545**

**W.H. JONES
TRYDANWR**

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



22 BRYNTIRION

Ffôn:
Llanberis

870145

**Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract**

**TAC SIS
WEBB**

PENISARWAUN

**CRIB
COCH**

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

I GOFIO AM THOMAS WILLIAMS Cymeriad annwyl a boneddigaidd

Colli cyfaill unwaith eto,
Aeth i fyd sy'n well i fyw;
Nid oes yno boen na gofid
Yn nhrigfannau Teyrnas Dduw;
Nid oes yma ond atgofion
Yma'n aros gyda ni,
Am un grwydrodd yr hen lwybrau
Dros flynyddoedd maith eu rhi.

Cymwynaswr yn y chwarel,
Cydwylbodol yn ei waith;
Helpu llawer i wneud cyflog,
Cardod gafodd, O! mae'n ffaith;
Ond toedd neb yn fwy poblogaidd,
Na neb erioed yn fwy ei barch;
Carem ninnau oll ei gofio,
Aeth neb gwell erioed i'w arch.

MARWOLAETH: Ar ôl blwyddyn o waeledd collwyd cymeriad hynod o arbennig o'r ardal, sef Thomas Williams, 3 Pentre Helen, gŵr Mrs Claudia Willis; tad Keith a Hilda a thaid i Nia, lan a Gethin.

Chwarelwr oedd Thomas ac roedd yn adnabyddus drwy'r ardal. Mae llawer o storïau difyr amdano tra roedd yn y chwarel.

Ei brif ddiddordeb oedd Seindorf Arian Deiniolen, ble bu yn llyfrgellydd a gofalwr am bedair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd. Roedd hefyd yn aelod ffyddlon o Gapel Ebeneser, Deiniolen.

DIOLCH: Dymuna teulu y diweddar Mr Thomas Williams ddiolch o galon am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl. Hefyd diolch i'r Parch Trefor Lewis a'r Parch D R Pritchard; Seindorf Arian Deiniolen; Meddygon y teulu; Meddygon a Staff Ysbyty Gwynedd ac i Mr Myrddin Pritchard am drefnu'r angladd. Diolch i bawb.

CLWB ELIDIR: Cyfarfu'r uchod brynhawn Mawrth, Chwefror 16eg yn y Caban. Cawsom sgwrs ddifyr gan Mr John Elwyn Thomas, Rhydfadog, oedd yn sôn am y bobl rheiny a fu yn ddylanwad ar ei fywyd.

Mwynhawyd y sgwrs yn fawr a diolchwyd iddo gan Mrs Eirlys Ll Jones a Mrs Megan P Morris. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Jane C Hughes, Mrs Jane Jones a Mrs Mary Hughes a llongyfarchion i Mrs Grace Williams am fod yn hen nain.

Rhodddwyd y te gan Mrs Jane Jones, Mrs Laura Williams a Mrs Mary Morris ac enillwyd y wobwr gan Mrs Idwen Thomas.

NANT PERIS

Gohebydd; Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion, 871327.

CYDYMDEIMLWN gyda Mr Tom Gwyn Pritchard a Mr Meirion Pritchard a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli eu chwaer yn Birmingham.

CROESO adref o Ysbyty Gwynedd i Alun Baylis ac Alan Pritchard. Gobeithio eich bod yn well eich dau.

LLONGYFARCHIADAU i Amanda a Peter Wlelsby, i Rhes Glanrafon, ar enedigaeth eu mab bach, bwd bach i David a Stephanie.

DYMUNA Robin a Jennifer Davies ddiolch yn fawr i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y lu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach. Diolch hefyd yn arbennig i John Morris, Rhianfa, Deiniolen am gyfansoddi'r bennill hon iddi:

Cernodia'r glaw yn drwm i lawr
Pan oedd y cyffro cyn y wawr;
Ar fore oer o lonawr du
A dau ar ras yn mynd o'r tŷ.

I 'sbyty Bangor Dewi Sant,
Aeth Robin Lloyd a Jen o'r Nant,
Lle ganwyd iddynt faban bach
Yn groch ei llais, ac eitha' iach!

Olwen Selina ddaeth i'r byd,
A rhodddwyd iddynt drysor drud!
Boed iddi iechyd a hir oes
A dilyn 'siaml gŵr y Groes.

Boed iddi lwyddiant ar ei thaith,
Mewn Gŵyl a defod, ac mewn gwaith;
Boed iddi oes yn llawn o fri,
Dyma ddymunwn iddi hi!

LLun "Trip Blackpool" — 1938

Mae'n ymddangos mai o ardal Llanberis a Nant Peris yr aeth y trip i Blackpool. Dyma enwau rhai o'r criw yn y llun:—

Rhes flaen: chwith i'r dde:
Griffith Hugh Jones, Gardda, Nant Peris; John Morgan, Gwastadnant, Nant Peris; Hugh Owen, Hafod, Nant Peris; merch tŷ lodjin; William Roberts, Ty'n coed, Nant Peris; Wheldon ?, Llanberis; Hugh Owen, Nant Peris; Hilda ?, Alun Philips, Dinorwig; ?;

Yn sefyll o'r dde i'r chwith:
Ben Morris, Cerrig y Drudion, Nant Peris; ?; ?; Williams, Cwm y Glo; John Evans, Cwm Wrach, Nant Peris; ?; ?; ?; R. Gwilym James, Nant Peris; Emrys ?, Llanberis; Owen Evans, Talgae, Nant Peris; Griffith Morris, Cerrig y Drudion, Nant Peris. ?; ?; ?;

Cefn: William Hugh Jones, Gardda, Nant Peris; William Pierce Williams, Nant Peris; ?; J. Williams, Hafod, Nant Peris.

Gyda diolch i Mrs B Peris Roberts, Llanrug am y wybodaeth.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

CLWB IEUENCTID: Mae'r clwb wedi cael cyfnod prysur ac amrywiol iawn yn ystod y mis diwethaf. Cafwyd disgo hynod lwyddiannus ar Ionawr 21ain pan ddaeth y disgoteciw'r lorwerth Williams o Fethel i'r Clwb. Yna ar yr 28ain o Ionawr bu'r aelodau yn gyfrifol am blygu rhifyn mis diwethaf o'r Eco. Fel y gŵyr plygwyr profiadol yr Eco, nid tasg fwyaf pleserus yn y byd ydyw hyn, ond er hynny fe wnaeth yr aelodau eu gwaith yn ardderchog. Yna ers hynny mae Len Jones o Ddeiniolen wedi bod atom gyda offer codi pwysau, a Malcolm Jones o Wasanaeth tŷ Gwynedd a fu mor garedig yn tynnu sylw'r aelodau at beryglon tŷ drwy ddangos ffilm ar y pwnc. Hefyd ychydig wythnosau yn ôl bu Rodney Roberts, Tudur Roberts a Chris Hobby yn cynrychioli'r Clwb mewn cystadleuaeth tennis bwrdd yng Nghanolfan Penrallt, Caernarfon. Er na fu'r tri yn llwyddainnus bu iddynt wneud cyfrif da ohonynt eu hunain ar ran y clwb. Gwell lwc tro nesa hogia.

Ymddengys y bydd yr wythnosau nesaf yr un mor brysur ac amrywiol gan y disgwylir hyfforddwy'r 'karate' a 'judo' ac arbenigwraig ar waith coluro atom, heb anghofio am y daith beic noddedig a gynhelir ar yr 28ain o Chwefror er mwyn codi arian i'r Clwb. Hefyd os sicreir y tocynnau, gobeithir trefnu i rai o'r aelodau fynd i wylïo tîm pêl-droed Lerpwl yn chwarae Wimbledon ar y 12fed o Fawrth. Felly digon i edrych ymlaen ato.

UNDEB Y MAMAU: Cyfarfu aelodau Cwm-y-Glo a Llanrug yn Hafan Elan nos lau 4 Chwefror. Dechreuwyd y cyfarfod trwy weddi dan ofal y Parch Carol Evans, Caernarfon. Ar ôl trafod rhai materion, cafwyd sgwrs ddiddorol gan y Parch Carol Evans am y deng mlynedd oedd wedi ei dreulio yn Nepal fel Cenhades. Yn gofalu am y te roedd Mrs Joan Williams, Mrs Connie Jones, Mrs Vi Jones a Mrs B Jones. Diolchwyd i'r Parch Carol Evans a'r merched am ofalu am y lluniaeth gan Mrs K Jones. Rhodddwyd y Raffl gan Mrs Edwards a Mrs B Jones ac fe'u henillwyd gan Mrs C Jones a Mrs Rauson. Bydd y cyfarfod nesaf Nos Fawrth, Mawrth 8 yn yr Ysgol Gymuned, Cwm-y-Glo.

Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi.

CLWB POBOL Y CWM: Cyfarfu'r aelodau dan lywyddiaeth Mr Llew Hughes dydd lau Ionawr 28. Croesawodd yr ysgrifenyddes Mrs H M Roberts, Bryngro yn dilyn ei harosiad yn Ysbyty Gwynedd dan driniaeth lawfeddygol. I gyfnod lle mae cynnydd rhyfeddol mewn meddyginiaethau a darganfyddiadau enfawr i wella afiechyddion, fe fu oes pan oedd dibyniaeth llwyr ae lysiau i wella anhwyldrau y corff. Diddorol felly oedd gwrandau ar ein gwrraig wadd Mrs M G Williams Bethel yn ei sgwrs yn rhestru amrywiaeth o feddyginiaethau llysiuol y gorffennol gyda rhai sydd yn berthnasol i'r oes fodern hon. Mae'n rhyfedd meddwl fod y llysiuau soniwyd amdanynt gan Mrs Williams dan ein traed heddiw. Gwnaed y diolchiadau gan Mr Hugh Pritchard Bryn Gwynedd. Mrs J Parry oedd yn gyfrifol am y raffl a enillydd gan Mrs K Watkins Mrs E Price oedd yn galw yng nghyfarfod Bingo dydd lau Chwefror 10. Diolchodd y Llywydd iddi am ei pharodrwydd parhaol gyda'r gwaith. Cydymdeimlwyd theulu cyn-aelod o'r Clwb, sef y diweddar Mrs Hannah Williams, 2 Maes Gerddi yn eu profedigaeth. Diolchwyd i Mr Lloyd Owen a Mr Tom Owen, 3 Maes Gerddi am eu rhoddion i'r Clwb. Mrs H M Roberts oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl a enillwyd gan Miss Megan Davies.

LLONGYFARCHIADAU i ti Cynthia ar ddatlu dy benblwydd yn un ar hugain oed Mawrth 12.

LLONGYFARCHIADAU i Gwyn Morris, Ceunant ar gyrraedd ei benblwydd yn un ar hugain.

i Alison Jones, Arosfa, Fron Gader ar gyrraedd ei phenblwydd yn ddeunaw oed.

i Medi Jones, Bron Eryri a Geraint Evans, Nebo ar eu dyweddïad.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Sian Hughes, 2 Bryn Gro ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Elwyn Foulkes, 2 Tan y Bryn, yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn Llanberis.

YN EISIAU TREFNYDD PLYGU I'R ECO

Cysylltwch â'r
golygyddion

CABS LLANRUG



C'FON 5951

Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos

Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa

Ysgol Gynradd Cwm-y-Glo
Mawrth 16, am 7.30 p.m.
Noson yng nghwmni aelodau
Cwm-y-Glo



ac ar Ebrill 20 am 7.30 p.m.
Cynhelir Cyfarfod Cyntaf y Gymdeithas
yng Nghaeathro
Sgyrsiau gan rai o drigolion y pentref
Manylion pellach yn Eco'r Wyddfa y mis
nesaf.

O FRO'R ECO I WLAD YR ADDEWID

gan Y Parch. Trefor Lewis

Tybed a wyddoch chi ymhle y mae'r lle isaf ar wyneb y Ddaear? Na? Wel, o ddarllen ymlaen cewch wybod oherwydd i'r fan honno yr awn y tro hwn. Ar y daith byddwn yn disgyn bron i 4,000 troedfedd, hynny yw, cyfateb â disgyn o gopa'r Wyddfa i bwynt bron i 500 troedfedd islaw lefel y môr.

Mae'n debyg eich bod wedi sylweddoli erbyn hyn mai sôn am y Môr Marw yr wyf, ac y mae pawb wedi clywed am hwnnw. Gwyddwn i amdano cyn gwybod am fodolaeth Môr y Gogledd. Ar wahân i'r môr rhwng Caergybi a Dun Laoghaire yr unig foroedd y gwyddwn amdanynt pan yn blentyn oedd môr y Canoldir, Môr Galilea, Môr Coch a'r Môr Marw.

Y mae pen uchaf y môr i'r dwyrain o Jerwsalem gyda'r pen isaf rhyw 47 milltir i'r De. Ar gyfartaledd y mae'n 10 milltir ar draws. Y mae wyneb y môr 1300 troedfedd islaw lefel Môr Y Canoldir a'r dŵr ar ei ddyfnaf yn 1278 troedfedd. Felly mae'r pwynt isaf ar y ddaear dros 2500 troedfedd islaw lefel y môr. Cofiwch hefyd fod Jerwsalem 2500 troedfedd uwchlaw lefel y môr. Does ryfedd bod clustiau pawb yn popian wrth i'r bws ymdroelli trwy fynyddoedd Jwdea ar y daith ryfeddol hon.

Gelwir ef y Môr Marw oherwydd nad oes dim bywyd ynddo. Dyma'r dyfroedd mwyaf hallt yn y byd gyda heliedd o bron i 30 y cant o'i gymharu â rhyw 4 y cant mewn dŵr cyffredin. Gan nad oes dim yn rhedeg allan ohono y mae'n cynnwys llawer o gemegau megis calsiwn clorid, magnesiwm, sodiwm a potasiwn. Y rheswm am hyn yw'r dyfroedd sy'n rhedeg o'r lorddonen, ac afonydd eraill, yn cynnwys degau o filoedd o dunelli o ddŵr wedi ei gymysgu gyda mater swlffwraidd a nitraidd. Gan na all y dŵr ddianc fe'i hanweddir gan y gwres tanbaid sy'n nodweddiadol o'r ardal. Y mae dwysedd cymharol y dŵr, sef 1.166 yn golygu y medr pobl arnofio ar wyneb y môr.

Y mae i'r cemegau a nodwyd briodweddau iachau unigryw ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd canolfanau iechyd neu ffynhonnau iachusol (spa) yn cynnig meddyginiaeth i lawer yn enwedig rhai gyda phroblem hefo'r croen.



Dyma lun i'ch cynhesu ynghanol Gaeaf! Fel y gwelwch y mae'r Eco wedi cyrraedd y Dwyrain Canol.

Ond rhaid yw gadael rhyfeddodau'r Môr Marw am y tro a sôn am ryfeddod mwy, yn wir, dylai fod ymhlith rhestr rhyfeddodau'r byd.

Rhyw ddwy filltir a hanner i'r gorllewin o'r Môr Marw, yn anialwch Jwdea, saif craig anferth. Y mae'r copa tua 2000 troedfedd uwchlaw lefel y Môr Marw; mesura'r graig, sy'n wastad ar y copa, hanner milltir wrth 220 llath. Dyma gaer Masada.

Medrwyd gyrraedd y copa o dri chyfeiriad. O'r dwyrain gallwch gerdded (a dringo!) llwybr troellog iawn; dyna pan y'i gelwir Llwybr y Sarff, mae'n ymddolennu i fyny ochr y graig. O'r ochr orllewinol y

mae'r daith ychydig yn haws gan fod y graig wedi ei chysylltu â'r gweddill o'r tirwedd gan fryncyn llai. Mae'r llwybr yn rhannu'n ddau a gellir mynd i bwynt gogleddol neu bwynt deheuol Masada. Ond nid cerdded a wnaethom ond defnyddio'r cerbyd sy'n symud yn araf ar gebl gref (chairlift). Gwasgodd rhyw ddeugain ohonom i'r caban a chychwynnodd hwnnw ei siwrnai hamddenol gan ein cludo rhwng daear a nef yn nes ac yn nes at y graig. Clywyd sawl ochenaid o ryddhad wedi glanio'n ddiogel. Wedi dringo nifer o risiau dyma gyrraedd y copa gwastad. Ond gadewch i ni fynd yn ôl rai canrifoedd i gychwyniad Masada.

Yn yr ail ganrif cyn Crist adeiladodd Alecsandr Jonathan yr Archoffeiriad gaer yma a'i galw'n Masada. Ganrif yn ddiweddarach penderfynodd Herod Fawr ddatblygu'r safle yn 40 C.C. pan yr adeiladodd balas fawr a oedd hefyd yn gaer. Dywed Joseffws yr hanesydd Iddewig bod dau reswm dros adeiladu sef 1. Rhag i'r Iddewon droi yn ei erbyn a'i ddiorseddu; o leiaf gallai ffoi i Masada pe digwyddai hynny. 2. Oherwydd bod ganddo ofn Brenhines yr Aifft, Cleopatra. Gellid gweld unrhyw symudaidd drwgdybus o gyfeiriad yr Aifft yn hawdd iawn o gopa Masada.

Ond i mi yr hyn sy'n gwneud Masada yn rhyfeddol yw'r stori am wrhydi arbennig iawn a gofnodir gan Joseffws. Yn 66 O.C. Torrodd gwrthryfel. Wedi dioddef blynyddoedd o dan lywodraeth y Rhufeiniaid gwrthryfelodd yr Iddewon yn eu herbyn. Prif arweinwyr y gwrthryfel oedd carfan o'r enw Y Selotiaid (Cymharer Seimon Selotes). Roedd y gwrthwynebiad wedi cymryd blynyddoedd lawer i gyrraedd y pwynt o wrthryfel. Buont yn brwydro am amser hyd nes yn y flwyddyn 70 disgynnodd Jerwsalem, ffaith yr oedd Iesu wedi ei rhagfynegi. Dinistriwyd Jerwsalem gan gynnwys y Deml, gan Titus.

Nid oedd y brwydro trosodd. Wedi i'r sefyllfa, o du'r Iddewon, waethygu dihangodd nifer ohonynt o dan arweiniad gŵr o'r enw Eleasar. Aethant tua'r De a chyrraedd Masada, a oedd wedi ei meddiannu gan y Rhufeiniaid ond ymhen ychydig llwyddwyd i'w goresgyn ac ymsefydlodd y gwrthryfelwyr yno, yn ddynion, merched a phlant, tua 1000 mewn nifer.

Rhyw ddwy flynedd wedi cwymp Jerwsalem penderfynodd Silva, cadfridog y Rhufeiniaid, edrych i mewn i'r sefyllfa ar Masada gan ymdebygu i gipio'r gaer. Sylweddolodd yn fuan nad gwaith hawdd mo hynny. Rhifai gwersyll



Edrych i gyfeiriad y Môr Marw o gopa Masada. Gellir gweld olion gwersylloedd y Rhufeiniaid yn rhan isaf y llun.

Silva rhwng 10,000 a 15,000, yn filwyr a chaethweision.

Ei gam cyntaf oedd adeiladu wal o amgylch y graig fel na allai neb ddianc. Yna rhwystrwyd y dŵr rhag mynd i'r gaer. Dechreuwyd adeiladu ramp ar yr ochr orllewinol. Gyda chymorth caethweision Iddewig, cludwyd tunelli o gerrig a phridd. O'r diwedd roedd y ffordd yn glir iddynt fynd dros y muriau i ymladd y gwrthryfelwyr. Ond, siom gafodd y Rhufeiniaid. Ymhob man yr oedd cyrff. Y dynion a'r plant a'r merched yn farw. Beth oedd wedi digwydd felly? Roedd Eleasar yn sylweddoli nad oedd ganddynt fawr o amser eto a galwodd bawb at ei gilydd a thraddododd anerchiad ddwys iawn. Dyma sut y mae Joseffws yn adrodd yr hanes, gan ddyfynnu Eleasar.

"Gan i ni benderfynu ers amser hir peidio â bod yn weision i'r Rhufeiniaid, nac i neb arall ond Duw ei hun, y mae yr amser wedi dyfod i ni amlygu y penderfyniad a'i roi mewn gweithrediad. Mae yn ddigon amlwg y cymerir ni ymhen diwrnod o amser; ond eto y mae yn dda i ni farw mewn modd clodfawr, gyda ein cyfeillion annwyl Byddwn feirw cyn yr elom yn gaethweision i'n gelynlion, ac awn allan o'r byd gyda'n plant a'n gwragedd mewn cyflwr o ryddid."

Dewiswyd trwy bleidlais ddeg o ddynion i fod yn gyfrifol am ladd y gweddill. Wedi cyflawni'r gwaith hwnnw dewiswyd un ochr deg i ladd y naw arall ac y roedd ef i gyflawni hunan-laddiad ar ôl rhoi'r gaer gyfan ar dân. Gwell oedd ganddynt farw yn rhydd na mynd yn gaeth.

Yn rhyfeddol ni laddwyd pawb. Rhywsut llwyddodd dwy wraig a phum plentyn i osgoi'r lladdfa a hwy a adroddodd yr hanes i Silva a daeth y digwyddiad yn rhan o hanes yr Iddewon a'r Rhufeiniaid. Er hynny aeth Masada yn angof, hyn efallai oherwydd bod llawer yn amau Joseffws, ac ni chlywyd am y lle am ganrifoedd.

Yn nechrau 1807 roedd gŵr o'r enw Seetsen mewn cwch ar y Môr Marw pan sylwodd graig anferth yn y pellter. Meddyliodd mai Zif oedd ei henw. Yn 1838 roedd yr archaeolegwyr Smith a Robinson yn Ein Gedi a gwelsant hwythau y graig a'i hadnabod fel Masada. Yn 1842 llwyddodd dau arall Walcott a Tipping i'w dringo. Yn ystod y 90 mlynedd nesaf bu nifer o

archaeolegwyr ar y copa a darganfuwyd y sustem ddŵr a gwersylloedd y Rhufeiniaid. Yn 1963 dechreuwyd ar y gwaith o gloddio Masada ac mewn cyfnod o 11 mis (Hydref 1963 hyd Ebrill 1964 a Rhagfyr 1964 i Mawrth 1965) roedd 97 y cant o adeiladau Masada wedi eu darganfod. Daeth adeiladau o gyfnod Herod i'r golwg gan gynnwys y palasau godidog, ac hefyd olion y gwrthryfelwyr. Darganfuwyd milltiroedd o waliau, 4,000 o ddarnau arian, degau o siclau (shekles) arian o gyfnod y gwrthryfel, 700 o ddarnau lledr gyda arysgrifiadau Hebraeg, Aramaeg, Groeg a Lladin.



Ystordy grawn o gyfnod Herod Fawr.

Nid gormodiaith yw galw Masada yn rhyfeddol. Y mae dyn yn rhyfeddu fod Herod wedi gallu trefnu i adeiladau ei balasau godidog yn y fath le heb gymorth peiriannau o unrhyw fath dim ond nerth bon braich. Go brin y bydd neb yn anghofio'r diwrnod yr aethant i Masada.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

Bethan Wyn o'r Waunfawr ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Dyma ei stori ar y testun:

DAMWAIN

Cododd Sian yn llawn bywyd y bore hwnnw. Mor wahanol i bob diwrnod ysgol arall. Fel arfer byddai'n rhaid i'w mam weiddi tua tair gwaith arni cyn iddi godi o'i gwely, ond heddiw roedd rhywbeth gwell nag ysgol ar ei meddwl. Heddiw oedd y diwrnod y byddai hi, o'r diwedd, yn cael gweld ei harwr, yn y cnawd. Llwyddodd i stwffio'i jeans a'i siaced denim, crys chwys a'r clust dlysau mawr a brynodd ym Mhortmeirion dydd Sadwrn yn barod at heddiw, i mewn i'w bag ysgol. Wedyn rheddodd i lawr y grisiau i gael brecwast.

"Rargian! ti'n edrych yn fywiog iawn Sian, be' sydd ymlaen yn yr ysgol na heddiw?" Gofynnodd ei mam.

"O ... dim byd arbennig, dim ond yr arferol, Maths, Cymraeg ..." Atebodd Sian gan geisio cuddio ei heuogrwydd. Roedd hi wedi ceisio ei pherswadio i adael iddi fethu'r ysgol. Wedi'r cyfan nid pob diwrnod oedd Stephen Spielberg yn cyfarwyddo ei ffilm ddiweddaraf wrth ymyl eich cartref. Ond y rheswm pennaf am y cuddio yma oedd i gael gweld ei harwr, Michael J. Fox. Byth er iddi hi a'i ffrind weld ei ffilm gyntaf yr oeddent wedi mopio'u pennau'n lân ag ô, ac o'r diwedd daeth y cyfle iddynt ei weld yn fyw! Yr oeddent yn fodlon gwenud unrhyw beth i gael ei weld, hyn yn oed os oedd yn golygu twyllo'r ysgol a'u rhieni.

Rhedodd i lawr yr allt o'i thy i gyfarfod Ruth. Yr oedd hi yno'n barod yn disgwyl yn ddiamynedd.

"Lle ti' di bod Sian?! Dwi wedi bod yma ers deng munud yn disgwyl amdanat ti, r'on i'n dechrau poeni rhag ofn i rywun fy ngweld i a gofyn pam nad ydw i ar y bws." Harthiodd Ruth.

"O cau dy geg wir, dwi yma rwan, a dyna di'r peth 'de? Hei, fedra i ddim disgwyl 'sti, gobeithio 'nawn ni weld o 'de?"

"Ia! atebodd Ruth yn eiddgar.

"Ti 'di cofio dy gamera di Sian?"

"Do, ar ôl gorfod troi'n ôl i'w nôl."

"Beth am dy fag colur di."

"O daria! naddo, gai fenthyg peth o dy un di?"

"Cei siwr. 'Nath dy fam di amau rhywbeth?"

"Wel ... dwi ddim yn meddwl, ond mi wnaeth hi ofyn pan fy mod i mwy sionc nag arfer. Beth amdanat ti?"

"Na, dwi ddim yn meddwl."

Dechreuodd y ddwy gerdded fyny llethrau'r bryn am y chwarel, sef safle'r ffilm. Wrth iddynt agosau at y safle roedd rhaid bod yn fwy gofalus gan nad oedd y criw ffilmio yn hoffi gweld pobl y pentref yno. Ond, gan fod y genethod yn adnabod yr ardal mor dda, llwyddodd y ddwy i osgoi cael eu gweld.

Wedi iddynt newid i'w dillad a rhoi colur amdanant y tu ôl i graig anferth, aethant i chwilio am le gyda golygfa dda o'r set, ond hefyd yn le da i guddio. O'r diwedd cawsant hyd i'r union le, a gwnaeth y ddwy eu hunain yn gyfforddus yno am weddill y diwrnod. Aeth oriau heibio heb weld dim sôn am Michael J. Fox o gwbl, a dim hyd yn oed Stephen Spielberg. Erbyn hyn yr oeddent wedi diflasu'n llwyr, ac wedi colli eu brwdfrydedd i gyd. Mae'n amlwg mai adeiladu set oeddent, ac mai dim ond rhyw ychydig eiliadau oeddent yn ffilmio yma. Dim ond dynion cerdded yn ôl ac ymlaen o'r set i'r fan, ac o gwmpas y creigiau, oedd i'w weld. Doedd dim sôn am eu harwr mawr. Ond er y siominat a gawsant, cafodd y ddwy hwyl garw yn tynnu lluniau doniol o'u gilydd gyda chamera Sian.

Am tua dau o'r goloch dechreuodd hi gymylu, ac aeth yr haul o dan gwmwl. Felly

dechreuodd y criw ffilmio bacio eu pethau, gan fod y golau yn sâl. Penderfynodd y genethod fynd hefyd. Pan oeddent ar fin dod allan o'u cuddfan, gwelodd Ruth un o'r plant oedd ar y set yn cerdded tuag ar y fan ble roedden nhw'n cuddio.

"Hei Sian! Mae 'na hogyn bach yn cerdded o'r set at fan hyn."

"Dôs ar dy gwrcwd, 'tu ôl y goeden 'ma." Sibryddodd Sian.

"Gobeithio na wneith o'n gweld. O diolch byth, mae o'n mynd lawr at y pwll chwarel."

"Ti'n meddwl y dylen ni fynd i lawr i'w rybuddio fod y pwll yn ddwfn iawn." Gofynnodd Sian.

"Na, neu mi fyddwn ni mewn trwbwl mawr hefo nhw, a'r ysgol a'n rhieni ni."

"Ia, ond be os wneith o ddisgyn i mewn, mae'r pridd sydd ar ochor y pwll yn rhydd medden nhw."

Tra oedd y drafodaeth yma yn mynd ymlaen clywodd y ddwy sŵn rhywun yn disgyn i mewn i'r pwll - Yr oedd Sian yn iawn, 'roedd y bachgen wedi disgyn mewn i'r pwll. Rheddodd y ddwy i lawr llethr y bryn gyda eu gwynt yn eu dwrn. Yr oedd y bachgen yn cael trafferth nofio, ac roedd o'n chwifio ei freichiau yn yr awyr ac yn gwaeddi. Doedd neb ar y safle ffilmio wedi ei glywed, gan eu bod mor brysur yn pacio, ac roedd sŵn ceir a lorïau yn cychwyn yr injan, yn uchel yno. Felly doedd dim byd arall i'w wneud ond mynd i'w achub eu hunain. Nid oedd y prifathro na'u rhieni ar feddwl y genethod ar hyn o bryd, y peth pwysicaf oedd achub bywyd y bachgen bach. Erbyn iddynt gyrraedd ochr y pwll yr oedd y bachgen ar fin boddi, ac er bod y dŵr yn edrych yn ddwfn ac yn oer iawn neidiodd Sian i mewn i'r dŵr ar ei ôl. Yr oedd o wedi arnofio i ganol y pwll erbyn hyn a bu'n rhaid i Sian nofio ato. Nofiodd yn gryf a chyflym gan ddefnyddio ei holl egni, nes o'r diwedd yn oedd hi bron a chyrraedd y bachgen. Pan oedd Sian am estyn ei braich a gafael yng ngwddf y bachgen, fe suddodd o, ac er ei bod yn teimlo'n wan iawn erbyn hyn plymiodd o dan y dŵr i'w nôl. Erbyn hyn yr oedd Ruth yn y dŵr hefyd yn helpu Sian i dynnu'r bachgen i'r lan. Gorweddodd y bachgen yn ddiymadferth ar y lan. Gweddiodd y genethod y byddai'n fyw. Arhosodd Sian gyda'r bachgen a rheddodd

Ruth i ddweud wrth ei rieni, a oedd yn gweithio ar y ffilm. O'r diwedd agoroedd y bachgen ei lygaid, ac eglurodd Sian iddo beth ddigwyddodd. Cyrhaeddodd Ruth gyda llu o bobl yn ei dilyn, aethant yn syth at y bachgen, gan wneud môr a mynydd ohono. Tra roedd hyn i gyd yn digwydd sleifiodd y genethod oddi yno cyn iddynt gofio amdanynt, neu mi fuasai rhieni'r genethod yn siŵr o gael gwybod. Wrth lwc llwyddodd y genethod gyrraedd gartref, ac mynd i fyny i'w stafelloedd heb i neb eu gweld yn eu dillad socian. Er nad oedd Ruth a Sian wedi gweld eu harwr, yr oedd wedi bod yn ddiwrnod gwerthchweil.

Y pnawn wedyn yr oedd Sian wrthi'n llongyfarch ei hun am fod mor glyfar i allu twyllo ei rhieni ac am achub y bachgen. Roedd hi'n cael cryn drafferth i gadw'r gyfrinach yma wrthi hi ei hun. Ond doedd hi ddim am ddifetha'r holl beth rwan. Doedd ei mam ddim yn ei amau hi o gwbl, ond ni fedrai hi ddallt pam yr oedd gan Sian annwyd, a hithau'n fis Mai. Yn sydyn yr oedd yna gnoch ar y drws. Meddyliodd Sian mai Ruth oedd yno ac aeth i wrando yn ben y grisiau i weld os oedd hi'n iawn. Cafodd sioc o weld pwy oedd yno go iawn.

"Helo, gohebydd ydw i, i bapur newydd 'Y Fran Wen', dod yma ydw i i ofyn os ydi Sian Davies yn byw yma."

"Ydi ... pam eich bod chi eisiau gwybod hynna?" Gofynnodd mam Sian, gyda syndod yn ei llais.

"Wedi clywed oedden ni, gan y pobl sy'n gweithio ar y ffilm yn y chwarel, ei bod hi'n arwres!"

"Be'?, na mi rydach chi wedi cael y ferch anghywir mae'n ddrwg gen i. Dydi Sian ddim wedi gwenud dim byd arwrol iawn yn ddiweddar."

"Ond rydwi'n sicr mai Sian Davies a ddywedon nhw wrthym ni," atebodd y gohebydd.

"Beth ddywedodd y bobl ma' oedd Sian wedi ei wneud 'ta?" Gofynnodd mam Sian.

"Dweud ei bod wedi achub eu plentyn o'r pwll chwarel, ie rydw i'n siŵr mai Sian Davies oedd yr enw."

"Naci'n bendant, mi fuasai Sian wedi sôn rhywbeth wrthyf fi"

Aeth y ddadl ymlaen, a cherddodd Sian yn araf i lawr y grisiau. Yr oedd ei chalon yn curo'n gyflym erbyn hyn. Dylai hi ddim fod wedi llongyfarch ei hun yn rhy gynnar, oherwydd gwyddai Sian na fyddai'n arwres yng ngolwg ei mam.

SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU? MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

GWASANAETH FFOTO-COPIO

yn

LLANBERIS

Glenthorne, Stryd Newydd

Am fwy o fanylion

Ffoniwch: 870689

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

Am waith
PLASTRO
ac ADEILADU

yn ardal Eco'r
Wyddfa,
cysylltwch â

GARY CASEY
20 Cae Swigin
Talybont
Bangor
Ffôn: 93-601228

ECO'R IFANC

SIARAD CYHOEDDUS

Tri o Waunfawr ddaeth yn fuddugol ar y Gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yn 'Steddfod Ysgol Syr Hugh Owen. Y gosodiad oedd "Peth ffôl yw i fechgyn Ysgol Syr Hugh Owen orfod rhannu eu gwersi ymarfer corff hefo'r genethod.

Elin Gwilym aeth â'r wobwr.

Annwyl gyfeillion,

'Rydan ni eisoes wedi clywed gan y siaradwr cyntaf fod gwersi Ymarfer Corff i'r bechgyn a'r merched yn syniad da. Lol botas maip! Be' fasa'r hen bobol yn ddeud deudwch? Peidiwch a 'nghamddeallt i - does gen i ddim byd yn y byd yn erbyn i ferched gael chwarae pêl droed neu hyd yn oed rygbi ond iddyn nhw gael gwneud ar eu pennau eu hunain, a gadael llonydd i'r chwaraewyr go iawn - y dynion ar wahân!

Meddyliwch mewn difri - Beth fydd 'i diwedd hi? Gêm rhwng Manchester United ac Everton yn Old Trafford Hanner can mil o bobl ar bigau'r drain - Mae'r g7em yn stopio. Beth sydd wedi digwydd? Penalti? Cic rydd? Send off? Naci wir - mae Neli Puw, gôl geidwad Manchester United wedi colli un o'i "flase eyelashes". Mi fydd rhaid cael dyn First Aid a dynes Make-up. Ond eto, efallai mai nid Manchester United fydd enw'r tîm erbyn hynny ond Womanchester United.

Fy mhwynt i ydy hyn gyfeillion. Tydi merched ddim i fod i chwarae yr un gemau â'r bechgyn. Mae ganddyn' nhw eu hoci a'u pêl-rwyd a gadael y gemau go iawn i'r dynion. Tydyn nhw ddim digon da - ddim digon cryf na ddim yn ddigon penderfynol i gystadlu yn erbyn y dynion yn y gemau Olympaidd nag unrhyw gemau eraill. 'Toes yna yr un ferch yn y byd fasa'n ddigon da i fod yn yr ugain cyntaf mewn unrhyw gystadleuaeth yn erbyn y dynion, heb sôn am ei hennill hi.

Ond, a deud y gwir, adra yn golchi llestri a gwneud y gwlâu mae lle merched. Methu dallt ydw i pryd maen' nhw yn cael amser i ymarfer ar gyfer unrhyw gemau. Mae'n rhaid bod eu tai nhw yn flêr ofnadwy.

Felly, mi wna'i eich gadael chi hefo'r pwynt olaf yma. Rhaid rhoi stop ar y gwersi cymysg yma reit fuan neu mi fydd y merched yma wedi cymryd drosodd ein chwaraeon ni. Merched y Wawr yn rhedeg Undeb Rygbi Cymru (Er bod llawer un yn credu eu bod nhw yn gwneud yn barod). Jane Hardy a Haf Llywelyn Davies yn sylwebu ar y teledu, a Maggie'r Post yn rhedeg tîm pêl-droed ni hefo Brian Clough.

Ar wahân bia hi gyfeillion - Diolch yn fawr. Rhodri Siôn.

Foneddigon a boneddigesau (er na dydwi ddim yn siŵr faint o foneddigion sy'n yr ysgol yma).

Mae'r testun yn awgrymu, os ydan ni am ddilyn patrwm y gemau Olympaidd, y dylia hogia a genod gael gwersi ymarfer corff ar wahân, ac mae'n rhaid i mi ddweud, heb flewyn ar fy nhafod, fy mod i gant y cant tu ôl i'r trefniant yma ddigwydd yn ein hysgol ni.

Ga'i ddechrau trwy ddweud bod ni'r merched yn bobol arbennig iawn - a'r enghraifft orau o hyn yw poblogrwydd ein hannwyl Mrs Margaret Thatcher, sydd ben ac ysgwydd uwch ben pob dyn yn y senedd. 'Rydan ni'r genod yn llawer iawn callach na dynion, rydan ni'n datblygu'n gynt, ac yn gwybod yn iawn sut i fyhafiao ym mhob man,

Ond eto er hyn - pan ddown ni ferched, call, doeth a chyfrifol i'r ysgol hon, da ni'n cael ein lluchio reit i ganol rabskaliwns o hogia i wneud ymarfer corff.

Be fedrwrch chi ddweud amdany'n nhw - fawr o ddim byd da, peta na ddim dynion ar y ddaear yma, mi fyddai'r byd yn lle llawer brafach i fyw ynddo fo. Dynion sy'n cychwyn rhyfeloedd, dynion sydd wrth wraidd pob drwg, ond eto mae disgwyl inni ferched hoff a thyner gymysgu hefo'r rhain.

Mae ymarfer corff yn fusnes sy'n gofyn am fod yn osgeiddig, a symud yn urddasol - sef popeth yr ydym ni'r merched yn dda am ei wnued - ond be sy'n digwydd ryda ni'n cael ein rhoi ynghanol criw o hogia na toes na'm owns o urddas yn perthyn iddyn nhw. A ydach chi yn gwybod beth oedd enw'r hogyn blêr o Bwllheli oedd yn bownsio i fyny ac i lawr - ia Tramp o Lŷn.

A be di nodweddion nhw - petha blin, drewlyd chwyslyd, pwdlyd, cwynfanllyd a chegog, bob amser yn ffraeo am rhywbeth neu gilydd, hollol groes i ni'r genod, clen byth yn ffraeo, byth yn poeni pwy sy'n ennill na rhyw lol felly.

Welsoch chi rioed genod yn hitio'i gilydd gyda ffyn hoci - naddo siŵr. Glywosch chi rioed genod yn rhegi - naddo siŵr. Welsoch chi genod rioed yn bitchy - naddo siŵr, da ni di cael ein geni'n berffaith.

Mae'r gemau Olympaidd yn dangos y ffordd i ni drwy wahanu y rabskaliwns oddi wrth y genod call, a dyna sut dylai hi fod yn yr ysgol. Hefyd mi ddylia ni gael llawer mwy o bethau arwahân fel cantîn neu hyd yn oed ysgol. Ond pa obaith sydd ganddo ni efo dau ddyn yn brifathro!

Elin Gwilym
Waunfawr

Annwyl Ffrindiau,

Cyn i mi ddechrau trafod y gosodiad dan sylw, mi fyswn i'n licio gwneud hi'n berffaith glir fy mod i'n berson teg, di-duedd a di ragfarn. Yn anffodus mae'n rhaid i mi gyfaddef fod 'na rai merched sy'n dueddol o fod yn unochrog - ond diolch byth, mi fedra'i roi fy llaw ar fy nghalon a dweud na dydw i ddim yn un ohonyn nhw.

Enghraifft - Dwi'n siŵr y gallai unrhyw un o'r hogiau a'r dynion sydd yn yr eisteddfod 'ma heddiw wnïo a choginio gystal a ni'r genod, tasa nhw ond yn rhoi eu meddyliau ar waith. Wedi'r cyfan, mi rdyan ni

wedi dangos iddyn nhw ein bod ni cystal â nhw mewn gwaith coed a metel. Pwy a wŷr, efallai rhyw ddiwrnod, y bydd yna fachgen yn cael ei wobrwyo gan yr ysgol am wnïo. A dyna pam, gyfeillion, rydwi yn dadle ei fod o'n beth da fod y dosbarthiadau yn y gampfa yn rai cymysg. Nid syniad newydd ydy'r syniad fod cystadleuaeth yn beth da i ni, wedi'r cyfan mae'r eisteddfodau sydd wedi cael eu cynnal ar hyd y blynyddoedd yng Nghymru yn brawf o hynny. A dyna'r rheswm pan fy mod yn pwysleisio'r ffaith ei bod hi'n bwysig cael dosbarthiadau cymysg yn y gampfa. Sut mae gobaith i'r bechgyn wella safon eu gwaith heb yr esiampl ardderchog yr ydym ni'r merched yn osod iddyn nhw? Sut mae gobaith iddyn nhw ddysgu sut mae gwneud 'cartwheels' ac 'Arab springs' heb i ni, y genod ddagnos iddynt. Felly peth da ydy gwersi jim

cymysg.

Chwara teg i'r hogia. 'Does ganddyn nhw ddim help eu bod yn drwsgwl a dwy droed chwith gan y rhan fwy ohonyn nhw. Mae pawb yn deall mai'r merched sy fwyaf gosgeiddig yn mhob maes athletaidd. A deud y gwir - welsoch chi beth hyllach na dau ddyn yn bocio neu reslo? Mae yna sôn bod Sumo Wrestling am gael ei ddagnos ar y teledu. Pwy fydd yn sylwebu 'sgwn i - David Attenborough? Ma' nhw'r peth agosa welsoch chi 'rioed i greaduriaid y jyngl.

Na, gyfeillion. Mae angen i ni'r merched gael gwersi Ymarfer Corff efo'r hogia er mywn dysgu chydig iddyn nhw am sut i ymddwyn yn urddasol a gosgeiddig. Petha digon trwsgwl a lletwchiwth fasan nhw hebddon ni.

Diolch yn fawr.

Bethan Wyn
Waunfawr

Ffion Orwig, Llanrug a enillodd y gystadleuaeth ysgrifennu stori yn 'Steddfod Ysgol Syr Hugh Owen.

'EW MI GES I HWYL

Yr oedd yn ddiwrnod poeth o haf pan ddeffrais y bore hwnnw a chofiais mai hwn oedd y diwrnod yr oeddwn wedi disgwyl amdano yn eiddgar ers dechrau'r gwyliu. Roeddwn wedi trefnu gyda ffrind, i wersylla noson allan yn y wlad. Profiad nad oeddwn erioed wedi'i fentro o'r blaen - ond mae tro cynta' i bopeth!

Neidiais o'm gwely a brasmamu 'lawr y grisiau, yn ysu am freswast. Wedi bwyta llond fy mol, euthum i baratoi.

Cyn pen dim, roedd popeth yn barod, ac ar ôl ffarwelio a'm rhieni, i ffrwrdd a mi dan ganu yn baciau i gyd i dŷ Gwen. Parod iawn oedd hithau hefyd, ac ar ôl yr holl ffysian a'r "CYMERWCH OFAL" roeddem ar ein ffordd.

Roedd amser wedi hedfan, ac roeddem ar lwgu ar ôl yr holl deithio. Cawsom lecyn braf i fwyta'n cinio, ac ychydig o amser i orffwys wedyn. Rhoddais fy hunan i lawr wrth garreg a chefais gysgod canghennau coeden oedd gerllaw, rhag yr haul tanbaid. Gwnaeth Gwen yr un modd, a chysgodd fel cysgadwr mud heb ei ddeffro am aeaf cyfan.

Rhaid oedd codi pac unwaith eto, a chwilio am le delfrydol i gysgu'r nos. Wrth ymlwybro'n araf lwythog, gwelsom pa mor hyfryd oedd byd natur a harddwch y wlad o'n cwmplas. Roedd y coed ar eu gora' a'r blodau'n dawnsio yn yr heulwen.

Yn sydyn, arafodd camau brysiog fy ffrind a synhwyrais fod rhywbeth wedi tynnu ei sylw. Roedd fel petai'n clustfeinio. Yna'n ddarwybod neidiodd cwningen o'r llwyni gerllaw a mawr oedd fy rhyddhad, a Gwen, mai symudaidd byd natur oedd yno.

Daeth yn nos mewn dim amser, ac roedd yn rhaid gorffwys. Cawsom le arbennig o hyfryd a chysgodol rhwng dwy goeden. Roedd yr haul yn machlud ar y gorwel, ac nid oedd chwa o wynt. Fe ddaethom i benderfyniad, i chwilio am goed tân, yna i goginio swper blasus. Euthum i nôl coed tra bo Gwen yn paratoi'r danteithion. Roeddwn yn ôl ymhenn dim, a llond fy mreichiâu o goed. Yna eu gosod yn bentwr diymadferth. Roedd mwg yn llenwi fy ffroenau ac yn araf ddringo i'r nos.

Erbyn hyn roedd yr awel yn fain a'r awyrgylch yn dawel fel y bedd. Wedi bwyta, a diffodd y tân a oedd yn mygu'n fud erbyn hyn, aethom i noswyllo, ac i freuddwydio am fore heulog arall o haf.

Deffrais a chlywed trydar adar bach. Doedd hi ddim fel hyn gartref,

meddyliais, ond yna, daeth yr hiwmor yn ôl imi. Roeddwn wedi gwersylla wrth gwrs! yr oedd Gwen wedi deffro ers sbel, ac yn prysur gasglu ei phethau at ei gilydd. Roeddem yn mynd gartref heddiw. Wedi brecwast cynnar, cychwynasom ar ein taith yn ôl, a mwynhau yr heulwen ar ein wyneb. Er aros fan hyn a fan acw, fe gyrhaeddasom toc wedi amser cinio, ac yna, adrodd yr hanes o'r dechrau hyd ei ddiwedd, wrth fy rhieni. 'Ew mi ges i hwyl.

Ffion Orwig



CORNEL Y PLANT IAU

Wel tipyn o siom gefais i mis yma!!
NEB – dim un person wedi anfon
gwaith i'r Gornel. Beth am wneud
ymdrech arbennig erbyn y mis
nesa'. Mi fydd yn Fawrth y cyntaf
ymhen ychydig ddyddiau. Dyma lun
i chi ei liwio. A chofiwch wisgo eich
Cennin Pedr ar ddydd Mawrth
Mawrth 1af. Darllenwch y penillion
bach yma am Dewi Sant:

Fe glywsoch am Ddewi'n pregethu
mi wn,
A'r ddaear yn codi i bawb gael
gweld hwn

Ac fel y daeth ysbryd yr Arglwydd
o'r nef
Fel c'lomen yn disgyn ar ei ysgwydd
ef.

A phan ddaw mis Mawrth, ni a
gofiwn yn llon
Am Ddewi ein nawddsant, am
Ddewi fab Non.

Geraint Lloyd Owen



CORNEL JÔCS

Beth ddywedodd y ganwyll fach
wrth y gannwyll fawr?
Rwyf yn mynd allan heno!!

Pam fod gwddw Jiraff mor hir?
Am fod ei dread o'n drewi!!!!

Beth gei di wrth daflu menyn dros
ddyn o'r Alban?
'Bytyr Sgot'!!!

Beth ddywedodd y simdde fawr
wrth y simdde fach?
Rwyf ti'n rhy ifanc i ysmegu!!!

HA! HA!

Dyn yn mynd i'r siop sglodion a
dweud –

'Oes gennych chi sglodion ar ôl?

Dyn y siop – 'Oes digon'.

Dyn: 'Wel eich bai chi ydy hynny
am wneud gormod – mi gymera 'i
baced o selsig os gwelwch chi'n
dda!!

(Diolch i Sian Elin Verrall am y
pentwr jôcs yma)

Beth ddywedodd y goleuadau
traffig wrth y car?

Paid ag edrych 'rwy'n newid!!!

Beth ddywedodd yr hogyn wrth
lluchio'r cloc drwy'r ffenest?
Iesgob, mae amser yn hedfan!!!!

Cnoc cnoc!

Pwy sy' na?

Ceri

Ceri pwy?


Ceri ateb y drws te!!!!



COFIWCH ANFON EICH
STORïAU, LLUNIAU, JÔCS I'R
GORNEL
Pant Bryn Gwyn, Tan-y-Coed
Llanrug.

ELINOR Y ELIFFANT

Lliwiwch Elinor gan ddefnyddio'r lliwiau priodol.



1. Pinc
2. Melyn
3. Glas
4. Coch
5. Gwyrdd

PÔS MIS MAWRTH

1. Beth ddylem ei wisgo ar Ddydd
Gŵyl Ddewi?
2. Beth oedd enw mam Dewi Sant?
3. Beth oedd enw athro Dewi Sant?
4. Enwch un man yng Nghymru a
enwyd ar ôl Dewi Sant.
5. Ymhle yng Nghymru mae Ty
Ddewi?

Capel Dewi, Ty Ddewi. 5. Penfro
3. Pawl Hen 4. Llanddewibrefl,
ATEBION: 1. Cennin Pedr 2. Non

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

CYDYMDEIMLAD: Er i rai cyfeillion fyned yn ddifrifol wael, serch hynny pan ddaw'r 'alwad olaf' iddynt mae hynny'n sioc i deulu. Felly y bu hi yn hanes Mrs Mary Ann Jones a hunodd yn dawel ym Mharadwys, Gaerwen. Priod oedd i'r diweddar Mr David Jones, 5 Maes Eilian. A hithau wedi cyrraedd yr oedran o 85ain mlwydd oed, sain diolch oedd yn ei hangladd yn Eglwys Llandinorwig ar Chwefror 9fed, am i lawer ohonom gael y fraint o'i hadnabod, a chofio ei sirioldeb bob amser. Tra gallodd fe ddaeth yng nghwmni ei ffrindiau i gyrrddau'r Gymdeithas Undebol yn y Ganolfan ac fe fu hefyd yn ffyddlon iawn i Eglwys St. Mair yma yn Ninorwig. Fe hoffem gyfeirio ati fel Modryb Annie ac mae ein cydymdeimlad â Mrs Bet Roberts, 7 Maes Eilian ar golli modryb yn wir. Ddydd ei harwyl roedd hedd yn Eglwys Llandinorwig er bod sŵn stormus wynt y tu allan. Cymydog i'r chwaer ymadawedig sef Mrs Jennie Williams, 12 Maes Eilian a wasanaethai ar yr organ ac fe arweinwyd yr oedfa gan y Parchg Richard Jones, y Felinheli, ac roedd y Parchg Glyndwr Williams, Porthaethwy yno i dalu teyrnged haeddiannol. Fe gafwyd cyfraniad hefyd gan y Parchg Trefor Lewis - gweinidog capeli cylch Deiniolen a'r Parch William John Lewis, Ynys Môn. Ganwyd Mrs Jones ym Modorgan a daeth hi a'i phriod i fyw i Ddinorwig bron i 60 o flynyddoedd yn ôl. Treuliodd hanner can mlynedd yn 5 Maes Eilian ond oherwydd cyflwr ei hiechyd symudodd i fyw at ei merch a'i mab yng nghyfraith yng Ngaerwen flwyddyn a hanner yn ôl. Treuliodd amser difyr iawn yn Ninorwig a mawr oedd ei pharch at ei chyfeillion a'i chymdogion a mawr oedd eu parch hwythau tuag ati hithau.

DIOLCH: Dymuna Megan, Mair Hefin a Teulu y diweddar Mrs Mary Ann Jones, Paradwys, Gaerwen (gynt o Maes Eilian, Dinorwig) ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn ystod eu profedigaeth. Diolch i feddygon Llanfairpwll am eu gofal. Hefyd i gymdogion Maes Eilian am eu caredigrwydd drwy'r blynyddoedd. Rhoddir yr arian a dderbyniwyd tuag at Eglwys St. Mair, Dinorwic.

Fe wenuthum gyfeiriad at y diweddar Mr Goronwy Williams yn rhifyn lonawr o'r Eco ond fe dderbynias â ganlyn oddi wrth ei deulu gyda chais i'r Eco ei gyhoeddi. "Bu farw Mr Goronwy Owen Williams, 18 Maes Castell, Llanllyfni ar Ionawr 1af. Roedd wedi byw yn Ninorwig am lawer o flynyddoedd gan gymeryd diddordeb mawr yn ei Eglwys. Roedd yn edrych ymlaen am yr Eco bob mis, ac wedi ysgrifennu ynddo ddwy waith. Bu colled drist iawn ar ei ôl gan amryw yn enwedig ei wraig, ei fab a'i deulu. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb o'r ardal am y llw caridau a llythyrau ac i bawb a fu'n bresennol yn ei angladd. Rhoddwyd yn hael i Eglwys St. Rhedyw, Llanllyfni."

Maddeued gohebydd Deiniolen i mi os wyf yn tresmasu ar ei diriogaeth ef, ond ni allaf adael i'r cyfle fyned heb gyfeirio'n gynnil at y diweddar Mr Thomas Williams 30 Pentre Helen. Ni ellir ei gyfyngu ef i un ardal gan y teimlir colled ar ei ôl mewn ardaloedd eraill ar sail ei ddiddordeb unigryw ym Mand Deiniolen a'r Cylch. Fe fu am gyfnod lledfaith yn gofalu am gerddoriaeth y band - llyfrgellydd yw'r term swyddogol, ac fe wnai'r gorchwyl hwnnw yn gydwybodol a manwl.

DIOLCH: Dymuna Mrs Megan Evans, Eifion, Isfryn a Mary, Bryniau Heulog, Penrhosgarnedd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddagnoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli priod, tad a thaid annwyl. Diolch yn fawr am y llw llythyrau cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd tuag at Uned y Galon yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr i bawb.

PENCAMPWR GOGLEDD CYMRU: Llongyfarchiadau i ŵyr Mr a Mrs Hugh Thomas, 1 Bro Elidir sef Rhodri Elidir, Y Rheithordy, Trefor ar ennill yr Unawd Offerynol dan 10 oed ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Mangor ddydd Sadwrn, Chwefror 13eg, 1988. 9 oed yw Rhodri, disgybl yn Ysgol yr Eifl, Trefor ac yn aelod o Seindorf Trefor ers lonawr eleni ac yn offerynwr addawol iawn. Cyflwynwyd iddo Darian Ned Needham am ei gamp gan arweinydd presennol Band Biwmares ar ôl iddo gael 88 o farciau gan y beirniad Mr Alan Phillips. Roedd ei daid a'i nain a holl deulu Dinorwig wrth eu bodd.

Y BEIBL CYMRAEG

Er ma'r mis bach yw'r enw arferol ar Chwefror, fe all serch hynny fod yn fis pwysig iawn a llawn o ddigwyddiadau diddorol. Gobeithiwn fod Dinorwig fel ardaloedd eraill Cymru yn edrych ymlaen at weld cyhoeddi'r cyfieithiad newydd Cymraeg o'r Beibl mewn iaith gyfoes hawdd ei deall. Aeth rhai blynyddoedd heibio bellach er pan gyhoeddwyd y 'New English Bible' yn yr iaith honno, ond nid cyfieithiad Cymraeg o hwnnw yw'r fersiwn newydd a ddisgwyliar ar Fawrth 1af. Fe aeth pedwar can mlynedd heibio er cyhoeddi cyfieithiad rhagorol yr Esgob William Morgan o'r 'Wybrnant'. Er yr adeg honno fe dyfodd cenhedlaeth newydd sy'n cael anhawster i werthfawrogi yr arddull a'r priod ddulliau a geir yn hwnnw gan fod iaith lafar wedi newid i gymaint graddau er hynny. Cofier hefyd bod sgroliau'r môr marw wedi taflu goleuni newydd ar yr hen lawysgrifau, ac wedi cymell ysgolheigion i ail archwilio'r fersiynau Hebraeg, Aramaeg a Groeg. Erbyn hyn ni roddir cymaint pwys ar y rhai Lladinaidd a fu mewn bri gan fod mwy o bwys yn cael ei roddi i'r rhai Groeg mewn canolfannau fel Alexandria a Gogledd yr Affrig.

Gyda'r newid mewn arddull fe amcanwyd at gywirach cyfieithiad yn gystal. Fe ddichon y bydd rhai'n beirniadau'r cyfieithiad newydd hwn. Mae'n anodd plesio pawb.

Ymgynefinwyd â'r hen fersiwn gan gofio llyfr y Salmau'n arbennig, oherwydd trysorir cymaint ohonynt yn y cof. Fe gofir wrth gwrs i ni gael cyfieithiad mydryddol Edmwnd Prys o'r Salmau a ystyrir fel llyfr Emyrnau'r hen Genedl ac fe geir esiamplau o'i waith ef yn llyfrau emynau pob enwad.

YR YSBYTY: Fe fu Mrs Dora Jones, Bryn Hyfryd yn anffodus unwaith eto gan iddi ddisgyn a thorri ei chlun am yr eildro a bu rhai ei chludo i'r ysbyty. Da serch hynny yw cael cofnodi bod Mrs Mary E Jones, Ty'n Fawnog wedi bod dan driniaeth i adfer ei golwg yn Ysbyty Bangor. Mae rhai ieuengach yn gystal wedi bod am driniaeth yn yr


ysbyty. Un o'r rhain yw Mrs Rosemary Jonesm 10 Maes Eilian. Gobeithiwn adferiad buan i'r oll o'r cleifion.

LLONGYFARCHIADAU: Estynnwn ein llongyfarchiadau i Mrs Evans, "Dublin House" ar gyrraedd ohoni yr oedran o 90oed ar Chwefror 10ed. Trefnodd ei nith Mrs Enid Jones, Porthmadog de parti ardderchog iddi yn Dublin House, lle roedd llw mawr wedi ymgynull i ddymuno'n dda iddi ar yr achlysur arbennig yma. Dymuna Mrs Evans ddiolch o galon i'w holl berthnau a chyfeillion am yr anrhegion gwerthfawr a'r blodau hardd, cardiau a'r holl alwadau ffôn.

GWOBRAU ACHUB BYWYD



Berwyn Jones o Lanrug a Robert Davies o'r Waunfawr a enillodd wobwr achub bywyd ar ôl prawf teirawr yng Nghanolfan Hamdden Arfon yng Nghaernarfon. Roedd trydydd enillydd hefyd - Gareth Williams o Lanrug, ond methodd ffotograffydd yr Eco a chael ei lun - mae yn Saudi Arabia!



THEATRIG

Canolfan y Celfyddydau ABERYSTWYTH (0970) 4218: Mawrth 15-16
Canolfan Chapter CAERDYDD (0222) 396061: Mawrth 18-19
Theatr Ardudwy HARLECH (0766) 780667: Mawrth 21
Theatr Gwynedd BANGOR (0248) 351708: Mawrth 24-26
Theatr Clwyd YR WYDDGRUG (0352) 55114: Mawrth 29-30
Am ragor o fanylion cysylltwch â'ch theatr agosaf

Y TŴR

gan Gwenlyn Parry


Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

**Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

**Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i**

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

Agor

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ffiniau'r Gorffennol

Pe byddai'n bosibl buaswn yn hoffi diolch i bob un ohonoch yn bersonol a anfonodd gerdyn Nadolig i mi ac wedyn gerdyn 'Brysiwch Fendio'. Ond gan nad yw yn bosibl does gennyf ddim ond diolch i bawb gyda'i gilydd - ddarlennwyr Yr Herald a phawb arall yn Gymry a Saeson o bell ac agos. Derbyniwch fy nioch diffuant. "Chwi wyddoch beth ddywed fy nghalon".

Yr wyf wedi treulio rhai o'r wythnosau diwethaf yma ar fferm fawr yng ngwlad Llŷn - rhyw ddwy filltir o lan môr Bae Caernarfon. Heddiw mae o'n hen fôr gwyrdd aflonydd y sonia T. Rowland Hughes amdano yn un o'i lyfrau. Ddoe yr oedd y môr yn berffaith dawl a'r tywydd fel diwrnod o haf ond heddiw mae'n hollol wahanol. Minnau yn mwynhau egwyl ddifys o flaen tanllwyth o dân coed - blociau mawr wedi eu torri. Ar y wibdaith yng Ngogledd Iwerddon y gwelais dân debyg iddo - yn y Gwesty lle'r oeddym yn aros wrth gwrs. Tân blociau coed a ddisgwyliem ar fferm fawr lle mae digonedd o goed.

Mwynhâf edrych ar y defaid yn pori yn dawl yn y caeau a dychmygaf glywed Eifion Wyn yn cyfarch y gwynt ystormus yn pasio trwy'r dyffryn. Y mae geiriau Eifion Wyn yn bwrpasol iawn at y storm 'Ond pe clywit ar ryw dalar Oenig cynnar yn rhoi brêf Tro oddiwrth y dalar honno Paid a chwythu arno ef!'

Chware teg i Eifion Wyn ynte?

Clywais fod fferm yn Llŷn wedi cael oen bach cynnar eleni.

Ond yr hyn fydd yn rhoi mwyaf o fwynhad i mi yw'r cŵn defaid ac edrach ar y bugail yn eu dysgu ac yn mynd trwy'r gwersi, un ci yn cael ei ddysgu yn iaith pib (whistle) a'r llall gyda geiriau, a'r bugail yn chwibanu i ddysgu ci arall efallai. Y fantasia wrth beidio dysgu pob ci yr un ffordd ydyw hyn, pan yw dau gi yn gweithio gyda'i gilydd mewn treial cŵn defaid, pe byddai'r ddau gi yn gwybod dim ond gorchymyn chwibanu neu orchymyn geiriau byddai dryswch pa gi sy'n cael gorchymyn gan y bugail.

Y mae'r darlun o'r Bugail a'i gi ar y cae yng nghanol defaid yn rhyfeddol o wyrthiol sut y caiff y bugail y fath ufudd-dod a dylanwad ar ei gi, credaf nad yw'r ci yn gweld adwy ac eto mae'n mynd trwy'r adwy mewn ufudd-dod i'r bugail a'i orchymyn - neu drwy'r afon - fel y dywedais mae'n rhyfeddod. Byddaf innau wrth fy modd yn eu gwyllo.

wneud *Lemon Meringue Pie* ac Ellen Hughes yn gwneud *Battenburg* a hefyd Cywaith Coginio - 'Bywyd Iach'. Enillwyd y bedwaredd wobwr am y cywaith.

Mr John Bumby, Penygroes oedd ein gwestai nos Fawrth, Ionawr 26ain ac roedd wedi darparu cwis ar ein cyfer gyda Helen J Jones yn cadw'r marciau. Rhanwyd y gweddill yn ddau dîm gyda Ellen a Myfanwy yn gapteiniad. Tîm Myfanwy a orfu a diolchwyd i bawb gan Eurwyn Jones. Cafwyd noson gofiadwy, llawn hiwmor.

Yng Nghanolfan Sglefrio Glannau Dyfrdwy y treuliodd nifer o'r aelodau nos Iau, Chwefror 4ydd, yn westeion Clwb Ffermwyr Ieuainc Dyffryn Ogwen. Mwynhaodd pawb ei hun a diolch i Glwb Dyffryn Ogwen am eu gwahoddiad.

Daeth anrhydedd fawr i'r Clwb yn ystod y mis diwethaf pan etholwyd Myfanwy Wyn Jones, Clan y Gors yn Gadeirydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Eryri am y flwyddyn 1988.

GALW DDOE I GOF

(Parhau â phytiau o atgofion Edith Michael, fel y'u llefarodd i'w merch, Mrs Mem Pritchard)

(Yr ail ran o stori'r mis diwethaf)

Y diwrnod wedyn ar ôl dwad o'r ysgol amser cinio dyma fy mrawd Johnny i'r tŷ, a doedd gen i ddim gobaith cuddio rhagddo fo. Mi welodd fi ar ei union o dan y gwely ac mi oedd rhaid i mi ddwad allan, a Johnny yn dweud bod yn rhaid i mi fynd i dŷ Nain hefo fo. Mi ddechreuodd grio a dweud "Mae yn rhaid i ti ddwad er mwyn i ti gael bwyd". Erbyn hyn mi odd y ddau ohonom ni yn crio, ac mi aethom hefo'n gilydd i dŷ Nain.

Wel mi oedd nain yn ffraeo heb stop. I wneud pethau yn waeth mi roedd na lond padell o does yn barod i'w grasu, ac er mwyn mynd â fi yn ôl i Llanberis ar un waith, oedd rhaid i Nain ofyn i Mrs Parry, Glan Gors, fuasa hi yn crasu y toes. Nain yn gwisgo amdani mewn tymer ddrwg iawn a'i wyneb hi yn goch, a dyma ni yn cychwyn am orsaf Ponrhythallt. Nain yn ffraeo ar hyd y ffordd, fel pe taswn i wedi lladd rhywun neu wedi dwyn cannoedd o bres.

Cyrraedd Llanberis a finna wedi gobeithio y buasai y trên wedi torri yn racs ar y ffordd. Mynd i fyny rhyw stryd gul o'r Stryd Fawr ac am y mynydd a Nain yn fy ngadael i yn fano, fel bod hi byth eiaisu fy ngweld i eto. Dydw i ddim yn meddwl i mi byth faddau yn iawn i Nain.

Mam yn dwad i ngweld i cyn gynted ag y daeth hi adra, ac wedi prynu scert newydd i mi yn anrheg o ffwrdd. Minnau yn byhaffio yn dda tra oedd mam yn cael te hefo ni, ond ar ôl iddi fynd adra mi oeddwn i yn torri fy nghalon efo hiraeth.

Aeth rhai diwrnodiau heibio a'r hiraeth ddim llai. Un noson braf ar ôl swper tua wyth o'r gloch, a minnau wedi clirio y bwrdd a golchi y llestri, mi oedd hi yn ddistaw fel bedd yn y gegin. Pobl distaw oedd rhain, ddim yn siarad llawer hyd yn oed hefo ei gilydd, mor wahanol i ni adra. Toc dyma nhw yn mynd i'r siambar a minnau i fyny yr ystol i fy llofft. Oedd y dyn yn arfer cnocio ar do y siambar hefo brws llawr i fy neffro i bob bore.

Penderfynias fy mod i yn mynd adra, ac na ddown i byth yn ôl wedyn. Ffenest bach mond rhyw droedfedd sgwar oedd yn y llofft. Ar ôl iddi ddechrau tywyllu agorais y ffenest a taflu fy nglochia allan i'r cae. Roeddwn i ym meddwl fy mod i yn glyfar iawn yn mynd â'r clochia i gerdded mor bell, wnes i ddim cofio am y twrw oedda nhw yn wneud ar y lôn.

Allan â fi drwy y ffenest bach heb lawer o drafferth, a sefyll ar ben y shed cyn neidio i lawr i'r cae. Rhedeg i lawr y mynydd â'm clochia

yn fy llaw nes cyrraedd y lôn, wedyn eistedd ar ochor y ffordd i'w rhoi nhw am fy nhraed. Cloc yn gwaelod y chwarel yn dechrau taro yn sydyn yn y distawrwydd mawr, a finnau yn cyfri un ar ddeg. Ymlaen â fi yn hapus wrth feddwl am adra.

Dyma gyrraedd top Llanberis a cael hyd i'r stryd oedd yn mynd i lawr i'r Stryd Fawr. Roeddwn i yn falch iawn, achos o'r fan honno roeddwn yn gwybod y ffordd bob cam adre i Bethel.

Pan oeddwn i yn troi i'r Stryd dyma fi yn clywed sŵn traed trwm yn dwad tuag ata i. Oeddwn i yn gwybod yn iawn mai plismon Llanberis oedd yno, a llawer oeddwn i wedi glywed na hen ddyn cas oedd o. Cuddiais yn ymyl rhyw wal nes oedd o wedi mynd heibio, ond mi oeddwn i yn rhy ofnus i fentro i'r Stryd Fawr yn awr, a mi drois yn ôl am y mynydd. Eisteddais ar wal bach yn fan honno, ddim yn gwybod pa ffordd i gychwyn, a dim golau yn unman, pawb wedi mynd i'w gwlaer er mwyn codi yn fuan i fynd i'r chwarel.

(parhad yn y rhifyn nesaf.)

YN EISIAU

Gofalwr i Dŷ Capel,
Libanus, Clwtybont

Tŷ hwylus, newydd ei
atgyweirio

'Double glazing' ayyb

Ymofynner â
Robert Williams, 4 Tai
Caradog, Deiniolen

Dyddiad cau:
31 Mawrth, 1988

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn:
Waunfawr 552



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau,
raciau llythyrac ac ati. Hefyd crefftau lleol eraill:
crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthg
Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

GWILYM H. WILLIAMS

BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL

Ffôn

Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)



Noson Santes Dwynwen

PWYLLGOR NEUADD BENTREF: Nos Wener, Ionawr 29 am 6.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys cynhaliwyd Noson Santes Dwynwen. Beirniadwyd y llunau y cardiau a'r teisennau gan Mrs Pat Jones, Cae Coch, Brynrefail a mawr ein diolch iddi am feirniadu mor deg ac am ganmol safon y gwaith. Dyma'r canlyniadau:

4 oed: am wneud llun a cherdyn tlls dyfarnwyd Nia Porter, Steven Vincent a Dion yn gyfartal. 5-6 oed: Llun hardd o Dwynwen 1af - Wena a Siân, 2il Tracey a Nia Griffith. 3ydd Lynne Vanessa a Christopher. Cerdyn 1af, Iwan Glyn ac Elgan. 2il Sion a Russell. 6-7 oed: Llun 1af Ben a Steven, 2il Aled Paul Jones a Dafydd. Cerdyn 1af Aled a Steven. 7-8 oed: Llun. Gwenllian ac Ynyr. 2il Llŷr a Sarah, 3ydd Cathryn ac Eryl. Cerdyn 1af Ynyr, 2il Sarah a Gwenllian, 3ydd Llŷr ac Eryl. 8-9 oed Llun 1af Daniel a Lois, 2il Huw, 3ydd Paul Thomas. Cerdyn 1af William, 2il Paul Thomas, 3ydd Huw. 9-10 oed: Llun 1af Llion, 2. Eleri. Cerdyn 1af Jonathan, 2. Louise, 3. Eleri ac Arwel. 10-11 oed: Llun 1af Sioned Wyn, 2. Elisabeth 3ydd Nia ac Osian. Cerdyn 1. Owen 2. Osian 3. Sioned. Teisennau dan 12 oed: 1. Eleri 2. Sioned 3. Nia a Williams. Dros 12 oed Andrea ac Hefina yn gyfartal. Enillydd y raffl yn rhoddedig gan Mrs Myfanwy Parry, oedd Mrs Helen Owen. Enillwyr Clwb Cant oedd 1. Mrs Rose Jones, 23 Bryntirion 2. Mrs M R Thomas, Bod Awen, 3. Mr Brian Jones, Perthi.

Nos Wener Chwefror 26ain bydd Noson Gymdeithasol yng ngwesty Fictoria Llanberis, noson hwyliog gydag eitemau o Siôn a Siân, llinell goll a dawnsio, - noson i ddathlu Gŵyl Ddewi. Fe dynnir Clwb Cant ar y noson.

Y mae ticedi raffl ar gael gan aelodau'r Pwyllgor - Raffl Wanwyn a dynnir mewn Ffair Wanwyn, nos Wener Mai 29ain yn Neuadd yr Eglwys. Gwobrau £25, £15, £10.

GWELLHAD: Mae'n hen bryd i'r tywydd oer a gwlyb yma fynd heibio - gyda dyfodiad y Gwanwyn rŵan. Mi fydd pawb gobeithio yn teimlo'n well. Deallwn fod Carol Jones, Owen Thomas, Mrs M R Thomas, Gwenda Jones, Pat Jones a Mrs B Williams, Llys Myfyr wedi bod yn yr ysbyty. Brysiwch wella i gyd.

DIOLCH: Dymuna Mrs Gwenda Jones ddiolch i bawb am y cardiau a'r blodau a dderbyniodd wedi'i arhosiad yn yr ysbyty.

Dymuna Gwenllian Parry a Dylan Edwin Jones ddiolch i'w rhieni, perthnasau a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu penblwydd yn 18 oed.

Am bob arwydd o gydymdeimlad yn ei phrofedigaeth o golli'i chwaer dymuna Mrs M J Roberts ddiolch i bawb.

CYMDEITHAS HANES: Nos Fercher Ionawr 20fed am 7.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys daeth cynulleidfada deilwng i wrando ar Twm Elias yn siarad a dangos sleidiau am y Porthmyn Cymreig. Difyr iawn oedd gwranddo arno'n olrhain teithiau y porthmyn o'r cylch yma yr holl ffordd i Lundain. Y mae hanes y porthmyn i'w gael mewn llyfryn gan Twm Elias o'r enw 'Y Porthmyn Cymreig'.

LLONGYFARCHIADAU: i Eiriona ac Ieuan William, Glyn Euron ar fod yn nain a thaid unwaith eto, ganwyd merch fach i Rhian. Dymunwn pob bendith i Claire Louise, 13 Bryn Eglwys ar achlysur ei phenblwydd yn 21 oed yn ddiweddar.

YSGOL TAN-Y-COED: Gair o ddiolch i'r cyfeillion a fu mor barod i gynnig a rhoi eu teipiadur at wasanaeth plant yr ysgol, yn dilyn hysbyseb yn yr Eco y mis diwethaf. Rydym i gyd yn falch fod Anti Gwenda, ein gofalwr yn well wedi triniaeth yn yr ysbyty.

EGLWYS SANTES HELEN: Cydymdeimlir â Miss M.J. Roberts, 5 Llys y Gwynt sydd wedi colli'i chwaer Miss Margaret Owen, Y Fali. Roedd Miss Owen yn fodryb hefyd i Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt. Dymunir gwellhad buan i Bryngwyn Griffith, sydd wedi bod yn yr ysbyty. Ein cofion hefyd ar Mrs R.O. Roberts sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar.

YSGOL SUL BOSRA: Y mae rhai o'r plant rhwng 9-10 oed yn edrych ymlaen am gael ymuno â Chôr leuenticid o dros 200 o leisiau mewn Drama Gerdd, "Mwy Nag Aur", a berfformir yn yr Hydref o dan nawdd Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg

Gristnogol Cymru. Drama fydd hi i ddathlu 400 mlwyddiant Cyfieithu'r Beibl. Pob hwyl a llwyddiant ichi blant!

CYDYMDEIMLO: Ionawr 19eg, yn dawel mewn Cartrefym Mae Colwyn, bu farw Ceridwen Griffiths, Commercial. Ein cydymdeimlad llwyr â'r cysylltiadau oll.

Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, wedi colli'i brawd yn Abergele, mae'n frawd hefyd i Mr W Iolen Hughes, Rhiwlas, ac Ellis Hughes, Caernarfon ac yn ewythr i Mr Gwynfor Roberts, Tai Croesion.

ADRAN BENTREF YR URDD: Pob dymuniad da i'r aelodau fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd, ddydd Sadwrn Chwefror 29ain a Mawrth 5ed.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r Eco:

£5: E L ac A M Williams, Llys Arfon, Brynrefail.

£3: Mrs Claudia Williams, 30 Pentre Helen, Deiniolen;

Mrs H T Owen, Caerdydd;

Mrs P R Jones, 10 Ffordd Deiniol, Deiniolen;

Dylan Edwin Jones, Meillionydd, Penisarwaun.

£2: Teulu Penrhosgarnedd, Dinorwig;

Glyn G Jones, 7 Pentre Helen, Deiniolen;

Mr Gareth Morris, Llanberis.

£1: Mrs Gwenda Jones, 11 Bryntirion, Penisarwaun.

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

CEUNANT

Gohebydd: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr â Mrs N Jones, Hafodol, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Mary Humphreys o Lanrwst.

A hefyd mae'n ddrwg gennym gofnodi marwolaeth sydyn Mr De Boo, High Moor. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll.

APÊL Y GALON

Cynhelir cyfarfod blynyddol Cangen Caernarfon a'r Cylch Apêl y Galon yn yr Institiwt Caernarfon nos Iau 10fed o Fawrth 1988 am hanner awr wedi saith. Croeso cynnes i bawb.

TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 DdI Elidir

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ionawr 28 dan arweiniad Mrs Hannah Jones a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau. Darllenwyd y llythyrau misol gan Mrs Jones.

Penderfynwyd ein bod yn mynd allan eto eleni i ddathlu Gŵyl Ddewi i Padarn Lake Hotel. Ein gwraig wadd am y noson oedd Mrs Williams o Fethel a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn am lysiau llesol. Diolchwyd i Mrs Williams ac i'r gwestwagedd gan Mrs Jean Elis a Mrs Betty Humphreys. Y gwestwagedd oedd Mrs Lizzie Jones, Mrs Mary Jackson, Mrs Katie Griffith, Mrs Glenys Jones, Mrs Betty Jones a Mrs Mair Jones a Mrs Jean Elis.

TEYRNGED I TWM PRICE: Gair bach o deyrnged i ŵr hynod o gymwynasgar a medrus. Byddai ei hiwmor yn codi ein calon a byddem bob amser yn edrych ymlaen am ei gwmpeini. Doedd dim byd yn ormod o drafferth gan Twm fel mae ei filoedd ffrindiau yn gwybod. Bydd colled fawr ar dy ôl hen ffrind.

LLONGYFARCHION: i Rita a Selwyn Allsup, Stryd Ceunant ar enedigaeth eu merch fach, chwaer fach i Gavin. i Eleri a Eilir Parry, Pen Bont ar enedigaeth eu man bach lan, brawd bach i Ffion.

Llongyfarchion hefyd i Jane a Gwynfor, Stryd yr Wyddfa ar enedigaeth eu merch fach gyntaf.

LLONGYFARCHIADAU i Gareth Morris, Oakfield, Ffordd Capel Coch a Debra Owen Dol Elidir ac Eirian Hughes, Maes Padarn y tri wedi dathlu eu penblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Dymuniadau da hefyd i Terry Saynor, Maes Padarn fydd yn dathlu ei benblwydd yntau'n ddeunaw ar Fawrth 13eg.

Llongyfarchiadau i David Roberts, Fron Goch a Keith Jones, Stryd Cambrian ar achlysur eu penblwydd yn un ar hugain oed, ac hefyd i Andrew Williams 23 Stryd Fawr fydd yn dathlu ei benblwydd yn un ar hugain ar Fawrth 15fed.

Llongyfarchiadau i Janet Pitts, Dol Elidir ar ennill medal am nofio ym Mae colwyn, hefyd i Darren Jones 16 Dol Elidir.

Llongyfarchiadau i David a Rhiannon ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Eirian 87 Maes Padarn a Neil mab Mr a Mrs R Roberts, Llanfairfechan ar achlysur eu dyweddïad.

DIOLCHIADAU: Dymuna Eleri ac Eilir Parry ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar

achlysur genedigaeth eu mab bach John Ian.

Dymuna Amanda a Peter Welsby Nant Peris ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu mab bach Nicholas John.

Fe hoffai Eirian a Neil ddiolch i bawb am yr anrhegion ar achlysur eu dyweddïad.

Dymuna Dilys Evans, 48 Maes Padarn ddiolch yn ddiffuant i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cydymdeimlad a'r cymorth a dderbyniodd yn ystod ei phrofedigaeth. Diolch am y llu cardiau a'r rhoddion hael a'r ymchwil y galon.

Dymuna Gareth Morris, Oakfield, Llanberis ddiolch i'w deulu, cymdogion a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion ag arian a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn ddeunaw oed.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mrs Mary W Thomas, Meirion a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli priod tad a thaid sef Mr Edward Thomas.

Cydymdeimlwn â Gari a John Elwyn Foulkes a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, nain a modryb sef Mrs Enid Foulkes Blaen Ddol.

Cydymdeimlwn â Mr Robert Lloyd, 124 Dol Elidir a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli modryb yn Nhrawsfynydd.

Cydymdeimlwn â Mrs Peggy Roberts Stryd Fawr a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli ei mam.

Cydymdeimlwn â Mrs K Williams, Derwen Deg yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Cydymdeimlwn â Mr Hugh Williams (Huw Bara) a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli ei chwaer.

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Eurwen Parry, Rhes Victoria, yn eu profedigaeth hwythau.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol: Miss J M Pritchard, Maes Padarn; Mrs Gwen Owen, Fron Deg; Mary Thomas, Plas Pengwaith, gynt o Llainwen; Mair Jones, Maes Padarn; Mrs Maggie Williams, Rallt Goch; Mrs Alice Thomas, Station House; Guto Roberts, Dol Elidir; Mrs Enid Jones, Ffordd Capel coch; Mrs Annie Jones, Stryd Newton sydd wedi dychwelyd i'r ysbyty a Martin Watkinson, Maes Padarn sydd yn ysbyty Lerpwl.

N.S.P.C.C. Nos lau Chwefror 4ydd yng Ngwesty Dolbadarn cafwyd noson gwin a chaws. Cafwyd noson

lewyrchus iawn a dymuna'r pwyllgor ddiolch i Mr Aneurin Jones, Dolbadarn, pobl Llanberis a'r pentrefi cyfagos am wneud y noson yn un mor lwyddiannus. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU: i Gareth Lloyd, Llwyngwrl sydd wedi pasio arholiad i fod yn Rhingyll. Mab Mr a Mrs Robert Lloyd, 14 Dol Elidir yw Gareth.



LLONGYFARCHIADAU:

i Gwyn Williams, 25 Dol Elidir am ennill tarian ym Mangor. Daeth yn gyntaf am chwythu corn. Yr oedd rhai o'r bandiau mawr yn cystadlu yn ei erbyn. Bûm i yn ffodus o gael Gwyn i chwythu corn ym mhriodas y ferch. Yr oedd wedi gwenud argraff ar lawer o'r gwesteion yn chware Voluntary March ar y corn tra'r oedd pawb yn cerdded o'r Eglwys. Mae Gwyn yn fab yng nghyfraith i Mr a Mrs Robert Lloyd. Cawn lun a mwy o fanylion am y gystadleuaeth yn y rhifyn nesaf.

CLWB IEUENCTID : Llongyfarchiadau: Dydd Sadwrn Chwefror 6ed aeth 7 o enethod o Lanberis i Ganolfan Hamdden Caernarfon i gynrychioli Arfon yn y gystadleuaeth 'Pêl rhydd' dros Wynedd. Enillwyd 2 gêm sef yn erbyn Meirionnydd a Dwyfor ond yn anffodus collwyd yn erbyn Caergybi, y sgôr 6-8. Da iawn genethod am ddod yn ail. Efallai curo y tro nesaf. Y cystadleuwyr oedd Bethan Jones, Bethan Owen, Helen Thomas, Jackie Sellars, Delyth Williams, Maria Williams a Jennifer Clarida.

Nos Lun, Chwefro 1af cafodd Adran Llanberis o Frigid Ambiwllans St. John eu Harchwiliad Blynnyddol gan Gomisiynydd Gwynedd, Mrs E A Jones. Yr Is-gomisiynydd Mr W.H. R. Lewis; Y Llywydd, Major Nash; Swyddog y Sir, Mrs B Hamilton a Chyd-gysylltwyr 'Y Badgers' yng Ngwynedd, Mrs D Owen. Cyflwynwyd tystysgrifau i'r Cadets ac i rai yn Adran yr Oedolion.

Hanfodion Cymorth cyntaf: Dylan Wyn Davies, Owen Tudur Davies,

Richard Stephen Edwards, Aled Wyn Hughes, Jason Bryniog Jones, Neil Owen, Derfel Owen, Edward Graham Rogers, Anthony Maurice Rogers, Bryn Lloyd Roberts, Geraint Wyn Thomas, Trystan Thomas, Euron Thomas, Elaine Bee, Michelle Carr, Catherine Gray Williams, Sandra Nisbet, Annette Georgina Sellars, Michelle Diane Willis.

Gofal am Gleifion: Elaine Bee, Michelle Carr, Catherine Gray Williams, Sandra Nisbet, Annette Gerogina Sellars, Michelle Diane Willis.

Canwio: Jason Bryniog Jones, Neil Owen, Derfel Owen, Bryn Lloyd Owen.

Glanweithdra Sylfaenol: Elaine Bee, Michelle Carr, Catherine Gray Williams, Sandra Nisbet, Annette Gerogina Sellars, Michelle Diane Willis.

Cymorth cyntaf i oedolion: Stanley Wyn Griffiths, Gwilym Arfon Owen, Dylan Parry, Bryn Carwyn Thomas, Thomas John Roberts, Mary Lynne Carr, Iona Jones, Alwena Hughes Jones, Nia Wyn Jones, Gillian Vaughan Jones, Meinir Owen, Brenda Roberts, Catrin Lloyd Roberts, Christine Roberts.

Gwnaeth uned iau (Badgers) newydd eu hymddangosiad cyntaf (grŵp 6-10 oed).

TEYRNGED I'R DIWEDDAR GANGHELLOR J.H. WILLIAMS

Dyfyniad o'r "Llan" trwy law Mr William Jones, Ffordd Capel Coch o deyrnged y Parch Haydn Rowlands i'r diweddgar Ganghellor J.H. Williams. "Neges ffôn ddaeth i law, ac yn rhyfedd iawn fe dorwyd ar ein trafodaeth. J.H. Williams wedi ein gadael, a dyna golofn arall ac un o hen golofnau'r Llan ei hun wedi dymchwel. Un o hogia Dyffryn Ardudwy fel y clywsom ganddo laweroedd o weithiau. Mab y siop a gedwir o hyd gan ei chwaer Miss Eleanor Williams. Credaf i Miss Williams ddweud ar raglen deledu beth asmer yn ôl na allai feddwl am Meirion ond fel cerddor a bod "John Henry wedi ei eni a'i fagu i fod yn offeiriad." Ond cawsom ynddo ar hyd y blynnyddoedd offeiriad ffyddlon a gwir amlochrog. Fe fyddai rhai yn dadlau mai offeiriad yr allor oedd uwchlaw popeth arall ac yn wir fe'i clywais ef ei hun yn dweud hynny unwaith. Ond yr oedd yn ddiwyinydd praff, yn bregethwr cymeradwy, yn weinyddwr penigamp ac yn llenor gwir dderbyniol. Mae ar y Llan ar holl gofnddoion eglwysif ddylad amrhisiadwy i J.H. Williams. Dilynodd gyrsiau yn y celfyddydau a diwinyddiaeth yn Llambod, cwrs ychwanegol yn Rhydychen a chwrs ymchwil ym mhrifysgol Lerpwl. Cydnabyddid ef yn un o ddynion galluocaf yr Eglwys yng Nghymru a chredai llawer y gallai fod wedi ei gwasanaethu mewn swyddi pur uchel. Yr oedd yn emynydd, yn fugal ffyddlon yn arweinydd ieuencid, ac yn wir offeiriad. Cafodd plwyfi Caergybi, Llanberis a Chaernarfon brofiad helaeth o'i amrywiol ddoniau a gwasanaethodd am gyfnod yn megesydd yr Esgob Bangor. Bu'n Prependari'r Eglwys Gadeiriol ac yn Ganghellor ac wedi ei ymddeoliad dychwelodd i'r hoffus Dyffryn Ardudwy i ymddeol a dymunwn ninnau ddiolch i'w chwaer ar ei gofal cyson ohono. Mae'r tri yn haeddu mwy o deyrnged na hyn, ac yn haeddu teyrngedau unigol ar dudalennau'r Llan, mawr obeithiwn y daw rhywrai i wneud hynny yn ystod yr wythnosau nesaf ac i wneud cyfiawnder â'u cyfraniad i fywyd a gwaith yr Eglwys, oherwydd fe syrthiodd tair hen golofn pur gadarn ac y mae'n tystiolaeth ninnau yn yr Eglwys yng Nghymru ac ym mywyd cyffredinol Cymru yn llawer gwanach o blegid hynny."

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.



BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn:

LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.

DIOLCH: Dymuna Beryl Jones, Dôl y Coed, ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn dilyn ei thriniaeth yn yr Ysbyty ac ar ôl iddi ddychwelyd gartref. Hoffai hefyd ddiolch i bawb am fod mor garedig tuag at ei mam Mrs Jones Evans, Pennant yn ystod ei harosiad yn Y Foelas, a diolch i Mrs Thomas a staff Y Foelas Llanrug am bob caredigrwydd.

YR YSGOL FEITHRIN: Nos Lun, Chwefror 29 yn y Ganolfan bydd Cwmni Drama'r Llechen Las o Ddyffryn Ogwen yn cyflwyno eu pantomeim 'Y Pibydd Chwith'. Mynediad trwy docyn neu dalu wrth y drws. Oedolion £1, Plant 50c. Bydd y perfformiad yn dechrau am 7.30 p.m.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod Chwefror o gangen Waunfawr nos lau y 4ydd. Croesawodd y Llywydd Mrs Pat Parry, Mrs Rosemary Bracegirdle a Mrs Ild Williams dwy ddarpar aelod newydd i'r cyfarfod.

Y gŵr gwadd oedd Mr Peter Roberts, Swyddog Rhanbarthol o Adran Safonau Marchnata y Cyngor Sir o'r Swyddfa yng Nghaernarfon. Croesawyd ef yn gynnes, a rhoddodd Mr Roberts amlinelliad cryno ac enghreifftiau diddorol o waith yr adran. Talwyd diolch iddo gan Mrs Katie Wynn Jones.

Rhodd gan Mrs Duncan oedd y raffl a enillwyd gan Mrs Catherine Jones.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos lau y 3ydd o Fawrth, pryd y dethlir Gŵyl Ddewi. Iola Huws Roberts sydd wedi derbyn gwahoddiad i dreulio'r noson yn ein cwmni.

CLWB GWYRFAL: Ar Ionawr 21, ein gŵr gwadd yn y Ganolfan oedd Mr Selwyn Griffith, Penisarwaun - darlledwr, awdur a bardd o fri. Cawsom sgwrs fywiog a difyr ganddo, ac ymateb da gan yr aelodau. Diolchodd Mrs E Jones, Eryri Wen i Mr Griffith am ei ddirnadaeth o'i waith ac yn enwedig am ei gyfraniad i lenyddiaeth plant.

Chwefror 4ydd Y llywydd Parchedig Barry Thomas oedd yn y gadair. Roeddem yn falch o glywed fod ein trysoryddes Mrs M Lloyd Jones gartre o'r Ysbyty. Hefyd Mrs Betty Hughes, ac edrychwn ymlaen i'w chroesawu yn ôl i'r clwb. Cydymdeimlwn â Miss Oweilda Williams a'i chwaer Mrs Ross ar farwolaeth eu brawd yn yr Unol Daleithiau.

Daeth Mrs Ruth Charles gweithwraig cymdeithasol i roi sgwrs ddelfrydol

ac amserol i ni. Eglurodd am y newidiadau sydd yn dod i rym yn yr Adran Iechyd a nawdd chymdeithasol ar Ebrill 1, a'r pwysigrwydd o anfon ceisiadau dyladwy i fewn erbyn diwedd mis Mawrth. Diolchwyd i Mrs Charles gan Mrs Roberts, Rardd Isa. Hefyd i Mrs Gill Brown ac aelodau Antur am eu help. Enillwyd y raffl - rhodd Mrs Bennet gan Miss Oweilda Williams. Mr Griffith, Llys Helen sydd yn trefnu'r cyfarfod nesaf ar Chwefror 18.

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd Cwis gwahanol, Nos Fawrth Chwefror 3ydd ym Mryn Eirian, Waunfawr rhwng canghennau Waunfawr, Llanrug a Bontnewydd. Cawsom noson fywiog ac addysgiadol, diolch i John Huws am y cwestiynau diddorol ac i'r sawl a gymerodd ran am ambell i ymateb cofiadwy. Bu'n rhaid i'r selogion brynu'r fraint o gael papur cwestiynau, cyn bwrw iddi i'w ymateb. Enillwyd y cwis gan ddau aelod o Gangen Waunfawr, sef Joy Glyn a Gill Wyn. Ond i gadw'r ddesgl yn wastad, bu Phyllis Ellis o Lanrug yn ddigon lwcus i fynd â photel o win adref efo hi, ar ôl ennill y raffl. Diolch i Mrs Gwynn Davies am lywyddu'r noson yn ei ffordd ddihafal, i Bryn Eirian am ddefnyddio'r ystafell a phawb a gefnogodd y noson.

Cyfarfod nesaf: Cofiwch gefnogi'r **Cinio Gŵyl Ddewi, Glan Gwna, Chwefror 27ain**, ar y cyd rhwng canghennau Bontnewydd, Caernarfon a Waunfawr. Os am docynnau cysylltwch â Dic Jones neu Gill Brown.

Clwb 100 Plaid Cymru: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Ionawr: 1. John Huws Roberts, Pant Teg; 2. Duncan Brown, Gwelfor; 3. Beryl Jones, Dol y Coed.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr: 1. £40 V.R. Davies, Bryn Gwyrfa; 2. £25 Cyril Williams, 1 Dol Erddi; 3. £10 George Taylor, 10 Dol Erddi.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs Hywel Evans, Tŷ Capel Bethel ar enedigaeth merch fach.

I Marlene ac Adrian, Tref Eilian ar enedigaeth mab bach.

I Mr a Mrs Gwynedd Parry, Bron Llewelyn ar enedigaeth mab bach, ac i Mr a Mrs R.H. Jones, Glyn Afon Isaf ar fod yn daid a nain unwaith eto.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlawn â Mr Ron Turner, Colffryn yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

Â Mrs Roberts, 2 Dol Erddi ar golli ei chwaer.

Â theulu y diweddar Mrs Nellie

Williams, Rhes Cefn Du.

Â Miss Oweilda Williams a'i chwaer Mrs Helen Ross, ar golli eu brawd yn America.

Bu farw Mr R.L. Parry, Rhes Eilian ar ôl cystudd hir, a chydymdeimlwn yn arw hefo'i weddw, Mrs Eluned Parry, a Sandra a'r teulu.

Cydymdeimlwn yn fawr hefyd â Mrs Lloyd Hughes, Gwastadfaes, Yvonne ac Emrys, yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad, sef Mr William Lloyd Hughes.

YR YSBYTY: Bu nifer o'r pentref yn cwyno yn yr Ysbyty yn ddiweddar a da yw cael croesawu adref Rhys Siôn, Pant Teg; Avril Charge, Llifton; Mrs Ann Thomas, Treforfan; Mrs Evan Hughes, Tref Eilian; Mrs M Lloyd Jones, Bryn Tawel; a Mrs K Overy, Pant Waun.

Yn parhau yn yr ysbyty mae Mrs Sassie Williams, Bro Waun; Mrs Reid, Tref Eilian a Mrs Jean Jones, Llwyn Onn. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddynt am lwyf wellhad buan.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Ymddengys fod y Gymdeithas Llenyddol yn mynd o nerth i nerth gan fod bron i bedwar ugain wedi ymaelodi eleni. Nos Lun, Ionawr 25 cafwyd sgwrs ddifyr gan Mr John Elwyn Jones, yr awdur poblogaidd, ar rai o gymeriadau Dolgellau ers talwm. Llywyddwyd gan Mr Gwyn Davies a thalwyd y diolchiadau gan Mr T E Jones.

Ar Chwefror 8fed roedd y neuadd yn llawn i'r mymlon i wlyio ffilm arbennig iawn sef 'Yr Etifeddiaeth' oedd yn portreadu bywyd cefn gwlad yn Llŷn ac Eifionydd yn 1948. Mwynhawyd y ffilm unigryw hon. Llywydd y noson oedd Mrs Margaret Owen a thalwyd y diolchiadau gan Mr Gwilym O Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Chwefror 22ain pan y disgwylir Mrs Mary Vaughan Jones i roi sgwrs ar ei hymwelriad â'r Wladfa, gyda Mrs Irene Roberts yn y gadair.

Daw y tymor i ben nos Lun, Mawrth 7fed ac nid y 14eg fel yr hysbyswyd ynghynt, gyda swper yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, pan y ceir adloniant gan y consurwr o Fangor, Robert Jones, sydd yn enedigol o'r Fachwen. Mae'r trefnydd yn pwysleisio ar i bawb sydd yn bwriadu dod i'r swper roi eu henwau un ai i Mr Stanley Williams neu Mr Rol Williams ar unwaith a derbynnir y taliad yn y cyfarfod nesaf, sef Chwefror 22ain.

DOSBARTHU'R ECO: Mae angen dosbarthwyr yr Eco yn y Waunfawr i ddechrau mis Ebrill. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Don Roberts, Sŵn-y-Gwynt. (Ffôn: 588).

MERCHED Y WAWR: Cyfarfu Merched y Wawr yn y Ganolfan nos lau, Ionawr 28. Cafwyd sgwrs a sleidiau am fyd natur gan Mr Twm Elias, Plas Tan-y-Bwlch. Cydymdeimlwyd â Mrs Griffiths, Llys Helen, ar golli ei brawd yng nghyfraith a dymunwyd adferiad buan i Mrs Beryl Jones a Mrs Bet Hughes.

Rhoddwyd y raffl gan Mrs Margaret Owen a'i ennill gan Mrs Gweneirys Jones. Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi ar Chwefror 25 gyda noson o Rannu a Blasau a phigion o'r Eisteddfod.

DRAENOG



A glywsoch chi sôn am gwpwl o Groeslon, Waunfawr, sydd wedi darganfod fod clagwydd yn cael gwell hwyl ar hel defaid na'r ci?

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Atodiad CWM-Y-GLO

MARWOLAETH: Yng nghartref ei merch yng Nghaernarfon ar y 4ydd o Chwefror bu farw Mrs Hannah M Williams, 2 Maes Gerddi. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu.

Dymuna'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon LLANRUG CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O WELAU SENGL A DWBL DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES' LENNI 'VENETIAN' A LENNI 'ROLER' GWAITH CONTRACT 5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC - ALLWCH CHI FFFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR 9-7pm 9-5pm Sadwrn AR GAU SUL, MERCHER.

Joelas

CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

Mabli'n Codi Wal

Mabli'n Gwisgo

Mabli'n Gwneud Popeth

Mabli'n Tacuso.

gan Anne brooke

Gwasg Gomer 60c yr un

Straeon wedi'u darparu'n arbennig ar gyfer dysgwyr o rieni sy'n darllen Cymraeg i'w plant.

Rhwng Gŵyl a Gwaith

gan R. Alun Evans

Gwasg Gee £3.50

Y pumed casgliad o sgysiau o'r gyfres radio Rhwng Gŵyl a Gwaith.

'Ni Ddaw Ddoe yn Ôl

gan Geriant Vaughan Jones

Christopher Davies £4.50

Nofel

Cribau Eryri

gan Rhiannon Davies Jones

Gwasg Gwynedd £6.25

Nofel hanesyddol

Teimlyddion

gan Gweneth Lilly

Gwasg Gomer £3.50

Nofel ar gyfer yr arddegau cynnar

Cefn Byd

gan Derec Llwyd Morgan

Gwasg Gomer £3.50

Casgliad o gerddi

Ble Mae'r Haul?

Dawns y Plu

Meg Morgrugyn

Seren y Nadolig

gan Jini Owen

Cyhoeddiadau Mei 80c yr un

Storiâu difyr, llawn bywyd i'r plant lleiaf.

Dyddiadur Dyn Segur

gan Griffith Parry

Gwasg Gee £3.50

Dyddiadur y diweddar Griffith Parry am y flwyddyn 1981.

Saunders Lewis 1893-1985

Mair Saunders (Gol)

Cyngor Celfyddydau Cymru £3.95

Y nawfed llyfr yn y gyfres Bro a Bywyd.

Yn Ddistaw Bach...

gan Rhiannon Tomos

Y Lolfa £1.65

Y llyfr diweddaraf yng ngyfres Rwdlan

Hen Garolau Plygain

gan Geriant Vaughan Jones

Y Lolfa £3.95

24 o garolau plygain wedi'u casglu ynghyd gan Geriant Vaughan Jones.

Blodau'r Gwrych 2

gan Islwyn Williams a Twm Elias

Gwasg Dwyfor £3.75

Y diweddaraf yng ngyfres Y Blodau.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdiorwig 670726)

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Fel canlyniad i Noson Gymdeithasol a gynhaliwyd yn Llwyn Eithin yn ddiweddar, cyflwynwyd siec o £55.50 i Drysorydd y Pwyllgor Apêl. Enillwyd y raffl, a roddwyd gan Mrs Sian Robinson gan Mrs Mair Jones, Glan Gors. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y noson.

Rhyfedd o fyd oedd gweld y Neuadd Bentref yn llawn o bobl yn gwledda ar grempogau, o bob peth, yn ddiweddar! y digwyddiad oedd ymdrech arall i godi arian i'r Gronfa leol. Mwynhawyd paned o de a chremog blasus a rhwng y raffl, a roddwyd gan Mrs Rita Williams gwnaed elw o £35. Enillwyd y raffl gan Mrs Margaret Rees. Diolch yn fawr i bawb am droi allan.

NEUADD GOFFA BETHEL: Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus Nos Fawrth Chwefror 9fed i draf cynlluniau ar gyfer dyfodol y neuadd. Penderfyniad y cyfarfod oedd bod angen neuadd newydd a cynhelir cyfarfod cyhoeddus eto ar y 20fed o Ebrill 1988 i drafod bratsun o gynllun gan bensaer. Bydd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

Enillwyr Clwb Cant mis Ionawr: £20 Mrs L Barlow, Bro Rhos; £10 - Margaret Jones, Cefn; £5 - Mr Emyr Jones, Wenallt; Mrs Falmal Ll Owen, 2 Fron Helyg; Mrs Alys Jones, Llys Alaw; M A J Roberts, 26 Y DDol.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod Chwefror yn yr Ysgol nos Fercher y 10fed o'r mis. Y wraig wadd oedd Mrs M V Jones Waunfawr yn dangos sleidiau ar ei gwyliau ym Mhatagonia yng nghwmni aelodau Merched y Wawr. Bu Mrs Jones yn dangos sleidiau ar ei hymweliadau o gwmpas y byd nifer o weithiau i'r gangen a phob amser yn ddiddorol. Diolchwyd iddi gan Mrs A E Williams, Tŷ Newydd. Gwnaed y te gan Mrs Williams, Awelon, Erw Bia, Mrs Hughes, Coed Bolyn a Mrs G Hughes, Cefn Rhos. Enillwyd y raffl gan Mrs Anne Elis.

Cydymdeimlodd y llywydd Mrs Lynwen Morris â Mrs Beti Owen a'r teulu yn eu colled o golli ei thad yng nghyfraith yng Nghaernarfon. Atgoffwyd yr aelodau am y gwadd i ymuno â Changen Rhiwlas, Nos Lun 7fed o Fawrth i ddathlu Gŵyl Dewi. Bydd Swper Gŵyl DEWI Y GANGEN YN YR Ysgol Nos Fercher 9fed o Fawrth. Nos Fawrth 15ed Fawrth estynnwyd gwahoddiad i'r gangen ymweld â Changen Rhostryfan. Enwau i Lynwen, Gwyneth neu Eryl.

DIOLCHIAU: Dymuni Mari a Meinir Owen ddiolch yn fawr i'r teulu

a'u ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd y ddwy ar achlysur eu penblwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIAU i Mr a Mrs Richard Parry ar enedigaeth merch fach Chwefror 15ed.

DYMUNIADAU GORAU i Angela Walley a Aaron Whitmore ar achlysur eu priodas yng Nghapel y Cysegr yn ddiweddar. Gobeithio y byddant yn hapus yn eu cartref yn 8 Cremlyn, Bethel. Dymuniadau gorau i Dafydd Williams a Llinos Wyn ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

PLAID CYMRU: Nos Wener Chwefror 12fed trefnodd y gangen leol i Gwmni'r Llechen Las, Bethesda berfformio Pantomeim 'Y Pibydd Brith' yn y Neuadd. Roedd y gynulleidfa niferus yn amlwg yn mwynhau'r noson yn fawr iawn gyda'r plant bron yn cymeryd rhan yn y pantomeim. Edrychir ymlaen at gael perfformiad mor lwyddiannus yn y neuadd eto.

Y GYMDEITHAS: Mrs Eluned Ellis Jones oedd y wraig wadd yng nghyfarfod y gymdeithas a gynhaliwyd yn festri capel Bethel nos Fawrth Chwefror 16. Cyflwynwyd Mrs Ellis Jones gan y Llywydd Siencyn M Griffith. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei chwmmi yn sôn am ei gwyliau ym Mhatagonia trwy ddangos sleidiau difyr iawn. Diolchwyd iddi gan Llinos Wyn. Bydd Swper Gŵyl Ddewi'r Gymdeithas yn Mhlas Menai Mawrth 1af. Dylid rhoi'r enwau i Mr Goronwy Jones.

ADRAN YR URDD: Cofiwch am Noson Goffi flynyddol Adran yr Urdd Nos Wener Mawrth 4ydd am 6.30. Bydd Stondinau, Gemau a Raffl ar y noson. Dydd Sdwarn Chwefror 27 cynhelir Eisteddfod Gylch 12-15 oed yn Syr Hugh Caernarfon. Dydd Sadwrn Mawrth 5ed cynhelir Eisteddfod Gylch dan 12 oed yn Ysgol Brynrefail.

Dymuniadau gorau i'r holl blant sy'n cystadlu boed mewn côr, parti neu fel unigolion.

Cychwynodd tymor yr urdd ar ôl y Nadolig gyda Disgo'r Urdd dan ofal Mrs Nia Morris, Llwyn Peris. Cafwyd noson yn gwneud llyfrau lloffion i hysbysebu gwyliau yng Nghymru dan ofal Mrs Mair Price a Mrs Mair Read fu'n gofalu am noson Dwynwen.

Cawsom noson chwyslyd iawn gyda Mrs Bethanne Williams Llanrug a'r plant i gyd erbyn y diwedd wedi twymo i'r Ddawns Werin.

Bu cangen Rhiwlas yn ymweld â ni

mewn cwis. Diolch i Mr Geraint Elis, R. Lloyd Jones, Glenys Griffith, Mair Read, Luned Davies, Angharad Elis a Meinir Williams am gasglu cwestiynau. Rhiwlas a orfu o ychydig o farciau. Nos lau 25ain byddwn yn treulio noson yng nghwmni Mr Geraint George mewn sgwrs, sleidiau a chwis ar yr Amgylchfyd.

YMDDEOLIAD: Bydd y 24ain o Fawrth yn ddiwrnod rhyfedd iawn yn Ysbyty Dewi Sant Bangor, y diwrnod hwnnw fydd diwrnod olaf miss Megan Roberts 'Gelli farm' Llanddeiniolen yn ei swydd yn y swyddfa yno wedi 43 a hanner o flynyddoedd o wasanaeth. Dyma ychydig o benilion a ysgrifennodd Mr E Evans Tan y Castell, Dolwyddelan i ddynodi'r achlysur.

Mae'n bleser mawr cael cyfarch Un roddodd amser llawn Ar hyd ei hoes fe weithiodd A hynny yn siriol iawn.

'Run lle dros ddeugain mlynedd Yn cadw records bu, A cholled mewn ysbyty Yw colli un mor gu.

Er bod ymhlith doctoriaid Yn gyson hefo'i gwaith, Fe lwyddodd ddal yn sengl Ar hyd blynyddoedd maith.

Ond nid oes eisiau doctor Ar neb nes bydd yn wael, Gwell lawer ydyw closio At ffermyr cefnog hael.

Ffarwel gompiwtar bellach A'r biro, ni raid sôn Tŷ gwydr fdd h belach Tomatos fel swej Môn.

Dymunwn lond ein calon Ymddeol hapus iawn, Ac iechyd am flynyddoedd I ddiwedd oes yn llawn.

Dymunwn oll ymddeoliad hapus iawn iddi.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291


Hefyd ail-osod carpedi

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

BWRW'R DRAUL

gan Y Gwalch

Roedd dan ni fwy na neb yn hunan gynhaliol yn yr hen ffarm cyn belled ag yr oedd bwyd yn y cwestiwn. Roedd ganddon ni laeth a menyn, cig a llysiau rownd y flwyddyn, ac yn yr Hydref roedd yna dunell o geirch yn mynd i'r felin. Roedd yna fochyn yn cael ei ladd yn y Gwanwyn a diwadd y flwyddyn a'r cig yn cael ei halltu. Lleddid hen swynogydd i'r cŵn, ac weithiau eidion i ninnau.

Yng nghwr yr olwyn ddŵr ar y llechi y byddai'r mochyn yn cael ei ladd, a'i waed yn llifo i dwll yr olwyn, os na fyddai mam yn ei ddal mewn bwcad i wneud pwddin gwaed. Roedd ganddon ni erfyn â elwid yn dwrch i ddal y mochyn. Dolen o gortyn oedd hi wedi ei chlymu drwy dwll mewn ffon fer. Ar ôl cael y ddolen i'w geg, roeddenn ni yn gallu ei throï a'i thynhau hefo'r ffon. Roedd hwn yn declyn â ddefnyddid ar anifeiliaid yn gyffredinol i'w parlysu cyn dyfodiad y cyffuriau marweiddiol.

Roedd hi'n angenrheidiol gweithredu ar anifeiliaid claf weithiau. Mae yn dal yn ddirgwelwch i mi sut yr oedd y milfeddygon rheiny yn swydd Efrog yn yr un cyfnod yn gwneud bywoliaeth. Mae 'n rhaid fod eu cwsmeriaid yn fwy cefnog neu aniben nac aelodau'r hen frawdoliaeth amaethyddol ar lawr plwyf Llanddeiniolen yn fy adeg i. Roedd o'n warth i ffariar ddod i fuarth. Os oedd cyflwr yr anifail wedi dirywio nes mynd tu draw i farn fy nhad, Robert Parry, Coed Bolyn Mawr, ac Owen Owens, Tan Dinas yn gytun, doedd yna fawr o ddiben galw am ragor o gyngor, talu amdano, a cholli anifail yn y fargen.

Buasai'r dulliau o feddyginiaethu yr adeg honno yn ymddagnos yn farbaraid heddiw ac yn dor cyfraith, ond yr oeddent yn aml yn effeithiol. Roedd yna arfau safonol yn cael eu cadw ar gyfer y rhan fwyaf o anhwylderau. Roedd yna gorn buwch yn crogi ar wal y beudy i roi ffysig i wartheg drwy gil eu cegau. Pitch oedd ar gael hefyd i blastro aelodau wedi torri, neu blisgod cynn wedi dod i ffwrdd, gefeliliau i dorri carnau, nodwyddau o bob maint a ffruf i bwytho gwartheg yn dangos manag goch neu wedi taflu llestr, rhaffau a ger i dynnu lloï croes, ac i godi anifeiliaid yn gorfforol oddi ar lawr, cylllell gron i daro i foliau buchod yn chwyddo hefo gwynt, a phrocer bach main o'r tŷ i fodrwy teirw. Ar ffenestri'r beudai roedd yna gyflenwad o gyffuriau mewn poteli a rheiny wedi eu gorchuddio â gwe: oel Morus Ifans a ffisigau Ellimans a baco Amlwch i geffylau wedi cael anwyd. Roedd y gwê ei hun weithiau yn hwylus i atal gwaed.

Roedd yna un dyn fodd bynnag oddefid i ddod i'r buarth am fod ei wasanaeth yn anhepgor. Tomos Jones y cweiriwr oedd hwnnw; Twm, Tan Tŵr. Roedd o'n dwad o'r Dwyran, Sir fôn, yr holl ffordd ar ei

feic tros y Bont Grog, i ymarfer ei grefft fanwl ar y tir mawr. Roedd yn cario ei arfau mewn blwch ar ben ôl y beic; cyllyll, gefeliliau, nodwyddau a haearn sieffio i atal gwaed. Ac yr oedd ganddo gyllell amheuthum, fel guillotine i dorri cynffonau ebolion. Roedd o ar ei daith bob awr a thymor heb arswyd na thrais na thywydd. Doedd o fawr o faintoli, ond gallai achub ei gam yn rhywle, â'i ddywediad a'i ddwrn, a doedd meithder ei siwrne yn mennu dim ar sadrwydd ei law, a byddai yn dwad â'r newyddion i ni o dros y dŵr.

Roedd o hefyd yn arbenigwr ar wneud triciau hefo cardiau a matsus, ac yr oedd o'n ein cadw ni yn ddiddan am hydion o gylch y bwrdd. Byddai cardiau yn diflannu i ddod i'r golwg wedyn yn y manau mwyaf annisgwyl, sigarets goleu yn cael eu llyncu, ddim ond i gael eu tynnu allan o glustiau pobol neu o dan eu ceseiliau. Roedd hyn wrth gwrs ar ôl i'r gwaith difrifol gael ei wneud.

Byddai'r anifeiliaid â oeddent angan ei sylw wedi eu hymneilltuo yn barod, ac er ei fod wedyn yn mynd i ffermydd eraill yn ystod y dydd, fydda fo byth ar frys. Roeddenn ni'n dechreu hefo'r anifeiliaid lleiaf a gweithio i fyny. Y moch bach oedd y swydd gyntaf. Fy ngwaith i oedd cael gafael arnynt a'u dal a'u pennau i lawr gerfydd eu coesau ôl rhwng fy nghluniau. Wedyn, y deunewaid. Roedd yn rhaid taflu rheini ar lawr. Y ffordd hwylusaf oedd taflu braich tros eu gwegil o'r tu ôl a gafael mewn clust. Yna rhoi bawd a bys y llaw arall yn eu ffroenau i atal eu hanadl, a dal gafael, dan ar yr un pryd daflu pwysau ar ochr y gwddf. Byddai rhai yn syrthio yn fuan, tra eraill yn cludo rhywun am lathenni fel

basged neges. Am fy mod yn gryf ac ysgafndroed yn y gwaith, byddai Tomos Jones yn fy menthyca fel prentis am y diwrnod i fynd i ffermydd eraill.

Mater hollol wahanol oedd trin teirw a stalwyni. Roedd yn rhaid rhoi twtch ar y rheini hefo'r ffon fach a'r ddolen, ac mi welais 'rodeos' yn datlbygu o dro i dro wrth dorri cynffonau ebolion. Fy ngwaith i bryd hynny fyddai twymo'r hearn sieffio ar y tân yn y tŷ, a rhedeg hefo fo yn goch eriais i fan y gyflafan pan fyddai Tomos Jones yn gweiddi amdano. Byddai wedyn yn rhoi'r haeran ar y toriad i gau'r gwythiennau gwaed. Ond serch y dulliau cyntefig rheiny, dydw i ddim yn cofio i neb golli anifail ar ôl ei drin gan Twm Tan Tŵr, ac yr oedd ei fedr a'i fenter o fawr barch yn ein cymdeithas ni. Ac ar waethaf pob amgylchiad, ychydig iawn o waed ofer oedd yn cael ei golli. Rwy'n cofio fel y byddai yn dewis y ceilliau gorau i'w rhoi mewn cwd papur i fynd adre i rhyw hen wraig yn Dwyran, oedd yn chwanog iddynt wedi eu ffrio hefo tatws newydd.

On d o ran dyfeisgarwch ffariars

cartre, fedraf i ddim llai na chofio achos yr hen hwch fawr honno oedd yn methu bwyta am fod yna dyfiant yn ei llwnc.

Roedd ymweliad Tomos Jones, drwy drefniant yn cyd ddigwydd ag un cymydog â ddaeth i gynorthwyo fy nhad drin yr hwch. Bu rhaid rhoi dau dwtch arni i'w syfulo, ac yr oedd y weithred honno fel ymladd crocodeil. Ar ôl cael ei cheg yn agored, rhoddwyd styllen fferf y tu ôl i'w sgythrannau rhag iddi roi glep arni yng nghau. Roeddent wedyn wedi gwneud twll yn y styllen i ganiatáu i goes brws fynd trwyddo, ar ben pa un yr oeddent wedi rhwymo y twca lladd mochyn yn dyn. Bu hyn yn foddion i ganiatáu i fy nhad dorri'r tiwmor i ffwrdd yn araf rhag rhyfgy mynd i'r wythien fawr. Mi waeddodd yr hwch yn hael, ond byw wnaeth hi i fagu torllwyth neu ddau wedyn.

Y peth sydd yn taro rhywun erbyn hyn, wrth feddwl am yr holl strach a'r bystachu, ydy'r ffaith eironig, mai dim ond er mwyn cael eu lladd yn y diwedd yr achubid llawer o'r anifeiliaid hyn.


John E. Williams

Y TŴR CYNHYRCHIAD OLAF "THEATRIG"?

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dod i benderfyniad ar y modd y mae'n bwriadu ariannu datblygiad y theatr yn yr iaith Gymreg yn ystod y tair blynedd nesaf. Er hynny mae dyfodol cwmni THEATRIG sydd â'i gartref yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, ac y cafwyd ymgyrch mor egniol i'w gefnogi yn ystod y ddau fis diwethaf, yn dal yn y fantol. Tybed a'i "Y TŴR", a fydd yn cael ei chyflwyno yng Nghanolfan y Celfyddydau ganol Mawrth ac yna'n mynd ar daith drwy Gymru, fydd cynhyrchiad olaf THEATRIG??

Mae enw da THEATRIG am gyflwyniadau nodedig o glasuron drama Ewrop yn yr iaith Gymraeg wedi tyfu o nerth i nerth yn ystod y pedair blynedd y bu'r cwmni mewn bodolaeth. Enillodd y cwmni glod haeddiannol am ei berfformiadau o "Miss Julie", "Tŷ Dol", "Peer Gynt" a "Blodeuwedd". Nid yw ond yn naturiol felly iddynt ddewis "Y TŴR" gan Gwenlyn Parry a gyfrifir ymhlith clasuron llenyddiaeth Gymraeg fodern, ar gyfer eu taith ddiweddaraf.

Drama gomisiwn yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1978 yw "Y TŴR" ac ynddi dilynir cwrw bywyd gŵr a gwaig a'r modd y maent yn datblygu'n rhan o'r naill a'r llall drwy eu perthynas gyffredin gonfensiynol. Gwelir llawer o lawenydd a'r siomedigaethau sy'n dod i ran pob pâr priod, ond er gwaethaf y stormydd a'r eiddigedd sy'n gallu tarfu ar unrhyw briodas, gwelir bod y ddau yn dal i fod gyda'i gilydd ar ôl oes o rannu profiadau. Mae Gwenlyn Parry sy'n adnabyddus am ei lafur maith ym maes y ddrama a'r cyfryngau, wedi creu darlun teimladwy a chynhyrfus yn y ddrama hon.



HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2212

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Brics, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau

Bistro

Glandŵr

43-45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278

(Danny a Nerys Roberts)



Dyddiadur y Mis

Mawrth

1. **Mawrth.** Bethel Y Gymdeithas – Swper Gŵyl Ddewi ym Mhlas Menai.
2. **Mercher.** Llanrug Plaid Cymru. Noson i'r teulu yng Nglangwna Caeathro.
3. **Iau.** Waunfawr Sefydliad y Merched – Dathlu Gŵyl Ddewi. **Deiniolen.** Cyfarfod y Chwirydd, Disgwylfa.
4. **Gwener.** Llanberis Te yr Henoed Bethel Yr Urdd – Noson Goffi 6.30
5. **Sadwrn.** Yr Ardal Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail.
7. **Llun.** Brynrefail cyfarfod Arbennig dan nawdd Pwyllgor y Pentref. 7 o'r gloch.
- Rhiwlas** Merched y Wawr. Dathlu Gŵyl Ddewi.
8. **Mawrth.** Llanrug Merched y Wawr. **Rhannu a Blasu.** Cwmyglo Undeb y Mamau – yn yr Ysgol Gymuned.
9. **Mercher.** Bethel Merched y Wawr. Swper Gŵyl Ddewi.
10. **Iau.** Cangen Caernarfon a'r Cylch. Apêl y Galon yn yr Institiwt 7.30 o'r gloch.
15. **Mawrth.** Bethel Merched y Wawr. Ymweliad â Rhostryfan.
- Llanrug.** Cwmni Drama Llwyndyrus yn Ysgol Brynrefail.
17. **Iau.** Llanrug Y Clwb Pêldroed – Tombola yn yr Ysgol Gynradd.
18. **Gwener.** Llanberis Te yr Henoed.
23. **Mercher.** Rhiwlas Neuadd y Pentref – Noson Lawen 7.30 o'r gloch.

MWY O DRWYNAU COCH



W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Merched ...
Dynion ...
Plant ...

I gael trin eich
gwallt yn eich
cartref cysylltwch â

SIAN

MAIRANNEDD
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 5366

Yn Neuadd Bentref
Rhiwlas
**NOSON
LAWEN**
YNG NGHWMNI
**Lleisiau'r
Gweunydd**
Arweinydd:
Einir Wyn Owen
gyda'u gwesteion
Cefin a Rhian
Roberts
Cyffred
Dylan Wyn
Williams
Iwan Williams
Nos Fercher,
Mawrth 23ain
1988

am 7.30 p.m.
Tocyn £1.00 i bawb
Mynediad gyda
thocyn yn unig
Tocynnau ar gael gan
aelodau'r côr.
Elw'r Noson er budd
Uned Gofal Arbennig,
Ysbyty Dewi Sant,
Bangor.

EISTEDDFOD GADEIRIOL BONTNEWYDD

31 Mawrth 1 Ebrill 1988
(Capel Siloam)

EITEM YCHWANEGOL ...
Nos Wener – Unwad Offerynnol, ac
eithrio'r piano, dan 21 oed.

Rhaglen lawn gan yr Ysgrifennydd
Mrs. E.C. Williams, Ffarm Dinas,
Bontnewydd, Ffôn Llanwnda 830537

Un o gartrefi brafia'r fro CARTREF PRESWYL HENOED



BRON ERYRI

LLANBERIS, Ffôn:
870142 neu 870391

PERCHENNOG

MRS. EIRIAN MALI S.R.N.

- Stafelloedd sengl a dwbl
 - Gofal 24 awr
 - Gwres canolog trwy'r adeilad
 - Yr holl staff yn siarad Cymraeg
 - Golygfa hardd
 - Liffat at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
 - Rhagofalon tân priodol
 - Lolfa teledu lliw
 - Pwyntiau teledu ym mwyafrif y lloffttydd
 - Bath-medic
- Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau
Cymdeithasol Gwynedd

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Y Felinheli 670124
(nos)



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

CHWARAEON

PWY SY'N COFIO'R CAMGYMERIAD?

Fe gofiwch i mi gynnwys ar y dudalen ôl y mis diwethaf un o bedwar o hen luniau timau pêl-droed y gorffennol a ddaeth i law, gan ei ddisgrifio fel tîm fu'n cynrychioli Cynghrair Bangor a'r Cylch a dynwyd ar yr Ofal yng Nghaernarfon.

Drwy flerwch, yn anffodus, nid y llun hwnnw a ymddangosodd, ond llun tîm Llanrug ar ddiwedd tymor 1950-51, ac fe ddaeth llythyr i law yn manylu ar ei gefndir.

Emrys Hughes yw'r awdur, ac mae'n ysgrifennu ar bapur llythyr sy'n dangos mai ef yw ysgrifennydd y 'Collegiate Old Boys' Football

Club' yn Lerpwl.

Dyma gyhoeddi'r llun unwaith eto felly, er mwyn i bawb gael gwerthfawrogi sylwadau Mr Hughes:



Yn y rhes ôl, o'r chwith i'r dde mae Arfon Davies, ysgrifennydd; Wil Prichard (neu Wil Pen Rhes); Hywel Jones, Bryncir; James McDonald, Bangor (chwaraewr proffesiynol); Tommy Roberts, Bangor; Bert Jones, Llanrug a Mr Wilson, Cadeirydd y Clwb.

Yn y rhes flaen:- Ifan Owen (neu Ifan Cae Corniog, Penisarwaun); Jimmy Hogan, Bangor; Seth Edwards, Bangor; Emrys Jones, Felinheli; Stan Jones, Bangor a Terfel Roberts, Nantlle.

Roedd Cynghrair Bangor & District wedi newid i fod yn 'Second Division Welsh League (West)' yn rhymor 1950-51. Er i Llanrug guro Llanberis ddwywaith y tymor

hwnnw, Llanberis a gipiodd y teitl gyda Llanrug yn ennill y Cwpan Amatur gan drechu Llandudno yn y rownd derfynol ar gae Bangor. Dechreuais y tymor fel gôl-geidwad Llanrug ond gadewais ym mis Mawrth i ymuno â'r lluoedd arfog am ddwy flynedd. Erbyn hyn mae Mr Wilson, Tommy Roberts a Jimmy Hogan wedi huno. Mae Hywel Jones fel minnau yn ysgolfeistr yn Lerpwl ac mae Terfel hefyd yn dysgu: fe adawodd Lerpwl yn y chwedegau ac mae bellach yn Sir Drefaldwyn. Mae Bert a Wil yn dal i ymddiddori yn y gêm gan gefnogi Llanberis a Llanrug, ac mae Seth a Stan yn chwarae 'bowls' yn ystod yr haf ar hyd y glannau.

Diolch o galon i chwi, Mr Hughes, am eich llythyr diddorol a'ch geiriau caredig ynglŷn â'r Eco. Isod fe welir y llun a fwiadwyd ei gynnwys y mis diwethaf - 'sgwn i fedr rhywun enwi pob un o'r chwaraewyr a'r Swyddogion, a hefyd nodi'r union flwyddyn.



YSGOL BRYNREFAIL PÊL-DROED

Llongyfarchiadau i Aled Griffiths (Bethel) a Gethin Parry (Llanrug) ar gael eu dewis i chwarae yn nhîm Ysgolion Arfon dan 13 oed. Colli fu eu hanes i ffwrdd yn Nhelford o 5 gôl i 3, ond yn yr ail gymal ar gae Dyffryn Nantlle, fe drechwyd yr ymwelwyr o 2 gôl i 1.

TRAWSGWLAD

Bu nifer o'r disgyblion yn rhedeg yn nhreialon Ysgolion Arfon yn ddiweddar, ac fe ddaeth peth llwyddiant i'r ysgol. Colin Jones o Lanrug fu'n fuddugol yn y ras i fechgyn dan 15 oed, a seithfed oedd Gillian Glass (Llanberis) a Dylan Cole Jones (Deiniolen) yn eu cystadleuthau hwy. O ganlyniad aeth y tri ymlaen i dreialon Ysgolion Gwynedd, ac yno fe ddewiswyd Colin, a ddaeth yn 3ydd yn ei ras, i redeg yn y Pencampwriaethau Cenedlaethol yn y Drenewydd y mis hwn. Pob lwc iddo.

PYSGOTA

Adroddiad H.P. Hughes

Unwaith eto gwelwn ein hunain ar drothwy tymor newydd, a llawer yn edrych ymlaen am gael rhoi y lein gyntaf yn y dŵr.

Ar ôl gaeaf tyner hyd yma, mae gobeithion y bydd y brithyll mewn cyflwr da a digon o gwrffio ynddynt. Y mannau gorau yn ôl pob golwg fydd y Stablau a Glan Gwna, ond gair o rybudd, bydd y cywion Sewin a'r Eog yn gwneud eu ffordd i lawr i'r môr, ac ar yr adeg yma maent yn awchus am unrhyw fath o abwyd. Da chwi rhwch rhain yn ôl yn y dŵr am mai hwy yw dyfodol yr afon yn ogystal a'i bod yn drosoedd i'w cadw. Bydd y ciperiaid yn cadw eu llygaid yn agored am droseddwr o'r math hyn.

Rhyw ychydig yn ôl soniais am ddifrod yn cael ei wneud i gloddiau ac ati yn ochri'r afon. Drachefn mae hyn yn broblem, yn enwedig yn ardal Llanrug. Mae'n wir dweud mai o'r pedwar llyn a bron i 45 milltir o afonydd sydd ym meddiant y Gymdeithas, yr unig le y mae'r eiddo yn cael ei ddifrodi yw Llanrug. Gall pawb ei weld ar y canllawiau ar Bont Cwawia, sydd yn y mis diwethaf wedi eu malu'n grybion. Gwelir hefyd y ffens newydd ym Mhonrhythallt, wedi ei thynnu i lawr ar ôl dau ddiwrnod.

Pam mai yn Llanrug yn unig y digwydd hyn yw'r cwestiwn mae'r aelodau yn ei ofyn.

Nos Sadwrn, 30 o Ionawr, cynhaliwyd y Bwffe blynyddol yng Nglan Gwna. Roedd tua 150 yn bresennol a rhoddwyd tlysau i'r buddugwyr yng nghystadleuaethau'r Clwb, gyda Harry Wyn Owen yn codi gwobr y pencampwr. Mae Harri hefyd wedi ymladd ei ffordd i gael pysgota dros Gymru yn y guystadleuaeth ryngwladol yn Lough Conn, Iwerddon, ym mis Mai.

PÊL DROED Y GYNGHRAIR

Gemau cwpan fu'n dennu sylw tîm cyntaf Llanberis yn ystod y mis, ac maent bellach wedi chwarae saith gêm yn llai na Bro Goronwy, sef y clwb sydd ar gopa'r tabl. Pe baent yn ennill y gemau mewn llaw hyn, y Darrans fyddai ar y crib. Pedwerydd o waelod y tabl yw safle Llanrug.

Mae Llanber bellach yn rownd go-gynderfynol Cwpan Sialens Gogledd Cymru. Bu'n rhaid iddynt ail-chwarae yn dilyn gêm gyfartal yn erbyn Shotton Westminster yn yr ail rownd: Emlyn Roberts (3) ac Iwan Evans yn ei gwneud yn 4-3 ar ôl iddynt fod 3-1 ar ôl. Yn y drydedd rownd, y Sadwrn diwethaf yn erbyn Bro Goronwy, Steven Williams, Gareth W Jones ac Emlyn Roberts yn sgorio i'w gwneud yn 3-2.

Cwpan Gyfryngol Cymru (y Welsh Intermediate) fu'n creu y cynnwrf mwyaf er hynny yng nghalonau'r cefnogwyr.

Aeth llond dau fws, heb sôn am nifer o geir i'w cefnogi yn y Drenewydd yn y bumed rownd, ac er mai colli o 2 gôl i 1 fu eu hanes, yn ôl pob sôn, fe wnaethant ddigon i haeddu gêm gyfartal. Emlyn Roberts yn llwyddo i sgorio ar ôl

taro'r traws nifer o weithiau.

Ôl nodyn diddorol yn dilyn y gêm hon yw mai'r tîm diwethaf o'r ardal i fynd cyn belled yn y gystadleuaeth oedd tîm 1966 y Darrans. Cwpan Amatur Cymru y'i gelwid y pryd hynny, ac yn y bumed rownd bu'n rhaid i Llanber deithio i Gaerleon - a'r canlyniad: colli o 2 gôl i ddim yn erbyn y tîm a enillodd y Cwpan drwy guro'r Trallwng o 1 gôl i ddim ar gae Llanidloes.

Tynnwyd y llun isod yn yr un cyfnod, tydi rhai ohonynt wedi heneiddio deudwch? Nid yw Irfon Thomas na Ken Davies, dau a chwaraeodd yn y gêm, yn y llun hwn.

O'r chwith i'r dde mae: Gwyndaf Jones; Arwel Jones; Arwyn Roberts; Bruce Edwards; Ifan Owen; Arfon Roberts; Alan Jones; Llew Roberts a Bobby Haynes. Yn eistedd: Gwilym Williams; John Roberts; Richie Jones; Brian a Gwyn Edwards.

Diddorol yw nodi fod Gwilym Williams yn dal i chwarae, ef yw rheolwr ail dim y pentref.

Bert Jones a Roy Griffiths oedd yn rhedeg y tîm.



CODI PWYSAU

Llongyfarchiadau i'r aelodau canlynol o Clwb Codi Pwysau Deiniolen am eu llwyddiant ym Mhencampwriaethau Cymru yn Abertawe yn ystod y mis. Eifion Griffiths: pencampwr ei ddosbarth, a'i enwi y bachgen ysgol cryfaf yng Nghymru.

Daeth y pedwar canlynol hefyd yn bencampwyr eu dosbarthiadau: Melvyn Powell, Kevin Cyster, Kevin Walters a Paul Hughes.

Ail oedd Rodney Collins yn ei ddosbarth ef.